Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO | | AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 12 RHAGFYR 2012 am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 12 DECEMBER 2012 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol Gwreiddiol/Original Independent**

Jim Evans, Ieuan Williams, G O Jones, Keith Evans a Eric Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)

**Llafur / Labour**

C Ll Everett

**Llais i Fôn**

T H Jones (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes a E G Davies

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

Alun W Mummery

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2012.

3 **COFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

Cyflwyno diweddariad ar lafar.

4 **ARCHWILIO ALLANOL** (Tudalennau 7 - 20)

4.1 Llythyr Blynyddol ar flwyddyn archwilio ddaeth i ben.

4.2 Diweddariad ar y Cynllun Rheoleiddio.

4.3 Diweddariad ar waith archwilio cyllidol.

4.4 Diweddariad llafar ar adroddiadau rheoleiddio.

5 **ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 21 - 42)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol.

6 **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL: ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN 2012/13** (Tudalennau 43 - 48)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid).

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Keith Evans, Cliff Everett, G.O.Jones, Vaughan Hughes, Alun Mummery, Ieuan Williams<br><br>**Aelodau Lleyg** – Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Uwch Archwilydd Mewnol (EW)<br>Rheolwr Rhaglenni a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 6.1)<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd E.G.Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd W.J.Chorlton (Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Cyllid a TG), Y Comisiynydd Mick Gianassi, Y Mri Huw Lloyd Jones, Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Ms Lynn Hine, Mr James Quance (PwC), Mr Tony Furber (Cyfrifydd) (ar gyfer eitem 3), Mr Barry Eaton (Rheolwr TG) (ar gyfer eitem 4.3) |

---

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Alun Mummery i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2012.

**3 DATGANIAD CYFRIFON 2011/12 A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

3.1 Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon 2011/12 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12, ynghyd â sylwadau'r Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ynglŷn â'r Cyfrifon, i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Hysbysodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yr Aelodau y cyflwynwyd cyfrifon drafft 2011/12 y Cyngor i'w harchwilio ar 29 Mehefin 2012. Mae'r gwaith archwilio manwl nawr wedi'i gwblhau'n sylweddol a rhyddhawyd Adroddiad yr Archwilydd. Yn amodol ar gadarnhad y Cyngor Sir, mae'r cyfrifon i'w llofnodi gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ac, yn dilyn derbyn barn yr Archwilydd, byddant yn cael eu cyhoeddi.

Tynnodd y Swyddog sylw arbennig at ansawdd y broses o gyhoeddi cyfrifon 2011/12 a dywedodd ei bod yn falch iawn o fedru eu cyflwyno o fewn y dyddiad cau statudol. Dymunodd gael

cofnodi'n ffurfiol y bu gwelliannau yn y broses archwilio eleni yn nhermau cyswllt, mwy o eglurder ynglŷn â'r disgwyliadau o ran cyflwyno papurau gwaith a gwell cyfathrebu o faterion yn codi. Cafwyd gwell deialog drwy gydol y broses. Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at y prif newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cyfrifon y rhoddwyd crynodeb ohonynt ym mharagraff 3 o'r adroddiad ac sy'n cael eu trafod yn fwy manwl yn adroddiadau'r Archwilydd Allanol fel yn eitem 3.2, ynghyd ag at yr eitemau nad ydynt wedi eu haddasu y rhoddwyd eglurhad ohonynt ym mharagraff 4. Wedi'i atodi i'r cyfrifon cafwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12 y cyflwynwyd drafft ohono i gyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor Archwilio. Diweddarwyd y datganiad wedyn i adlewyrchu goblygiadau llywodraethu adroddiad Estyn ar ansawdd Gwasanaethau Addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ym Môn sydd, er y'i cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2012, yn cyfeirio'n ôl at faterion mewn blynyddoedd blaenorol.

Daeth y Swyddog â'i chyflwyniad i ben drwy gyfeirio at y newid eleni i broses gymeradwyo'r Cyfrifon. O ganlyniad i'r newidiadau yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo'r cyfrifon bellach efo'r Cyngor Sir tra bo'r cyfrifoldeb am sgriwtineiddio'r cyfrifon yn parhau hefo'r Pwyllgor Archwilio.

Cytunodd yr Aelodau eu bod yn croesawu cwblhau a chyflwyno'r cyfrifon o fewn y dyddiad cau statudol a chydnabuwyd ganddynt ymdrechion y Gwasanaeth a'r Tîm Cyllid oedd wedi cyfrannu at gyflawni hyn. Ceisiasant eglurhad o rai agweddau ar y cyfrifon mewn perthynas â'r ymagwedd at gynnal balansau yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ynghyd ag ynghylch y defnydd o'r Gronfa Wrth Gefn Rheoli Perfformiad. Mater arbennig a godwyd oedd yr Asedau Treftadaeth ac yn benodol Casgliad Celf yr Awdurdod. Awgrymwyd, mewn hinsawdd o bwysau cyllidebol difrifol, y gall yr Awdurdod ystyried gwneud y gorau o botensial y Casgliad Celf yn nhermau troi'r asedau hyn yn arian ar gyfer ei ail-fuddsoddi mewn prosiect cyfalaf tymor byr neu at ddibenion refeniw trwy eu rhoi ar fenthyg. Eglurodd y Prif Weithredwr pam y gallai'r modd hwn o weithredu fod yn amheus o ran goblygiadau cyfreithiol yr amodau yr oedd eitemau o fewn y Casgliad Celf wedi cael eu hymddiriedu i'r Awdurdod oddi tanynt ac o ran rhwymedigaethau stiwardio'r Awdurdod. Byddai hefyd angen llawer o amser swyddogion ac adnoddau i archwilio'r amodau a thelerau cyfreithiol. Wedi hynny, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid felly ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio adroddiad yn egluro'r hyn y gall ac na all yr Awdurdod ei wneud yn gyfreithiol mewn perthynas â defnyddio'r Casgliad Celfyddydau. Y farn gyffredin o fewn y Pwyllgor oedd nad oedd hyn yn llwybr y dymunodd ei ddilyn yn seiliedig ar y cyngor a roddwyd gan y Prif Weithredwr; y defnydd gorau o adnoddau a'r rhesymau dros ddiogelu treftadaeth. Cyflwynwyd ac eiliwyd gwelliant na ddylid defnyddio adnoddau swyddogion yn y modd hwn ac y gwneid gwell defnydd ohonynt drwy ofyn i'r Adran Datblygu Economaidd er enghraifft i ymchwilio i ddulliau o wneud y defnydd gorau o asedau treftadaeth eraill yr Awdurdod a chynyddu'r incwm sy'n deillio ohonynt gymaint â phosibl. Yn dilyn pleidlais, derbyniwyd y gwelliant.

3.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i'w hystyried gan y pwyllgor

Cyflwynodd Ms Lynn Hine, PwC, adroddiad i'r Pwyllgor ar y materion arwyddocaol oedd yn codi o'r archwiliad fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig. Roedd y rhain yn ymwneud â chamddatganiadau nas cywirwyd a gofnodwyd yn fanwl o dan Atodiad 3 o'r adroddiad; risgiau archwilio a amlinellir yn ffurf tabl o dan baragraff 10 o'r adroddiad; materion mewn perthynas ag amcangyfrifon; prisiadau asedau sefydlog, rhwymedigaethau cyflog cyfartal, darpariaeth gwastraff ac ymdrin ag asedau treftadaeth o dan ofynion newydd Côd Ymarfer CIPFA. Hysbysodd yr Archwilydd yr aelodau nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill wedi codi o'r adroddiad ac nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr Awdurdod. Mae'r Archwilwyr yn cydnabod fod y Cyngor yn 2011/12 wedi gwneud llawer o gynnydd i fynd i'r afael â phroblemau wrth lunio'r datganiad o gyfrifon a bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon, sef 30 Medi, er y pwysleisiodd yr Archwilydd ei bod hi'n bwysig sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu cynnal.

Ynghlwm wrth Atodiad 2 i'r adroddiad, cafwyd adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn. Tra bo'r Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyflwyno barn archwilio ddiamod, tynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith na fydd tystysgrif cwblhau yn cael ei chyflwyno hyd nes y penderfynir ynghylch gwrthwynebiad i'r cyfrifon a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd a dderbyniwyd yn gymharol hwyr yn broses archwilio.

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i'r Pwyllgor y rhesymeg dros beidio ag addasu'r cyfrifon mewn perthynas â'r ddarpariaeth ôl-ofal yn safle

tirlenwi Penhesgyn. Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau dilynol ynghylch y cyfrifon a materion cysylltiedig yn ogystal ag ynghylch canfyddiadau'r Archwilydd Allanol yr oedd y Swyddogion wedi ymateb iddynt.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Datganiad Cyfrifon 2011/12 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cysylltiedig ar gyfer 2011/12 ac argymell i'r Cyngor Sir -**
  - **ei fod yn cadarnhau derbyn y Datganiad Cyfrifon,**
  - **yn cadarnhau nad oes unrhyw ddarpariaeth bellach i'w gwneud ar hyn o bryd, o ran ôl-ofal yn safle gwastraff Penhesgyn,**
  - **yn cadarnhau na wneir unrhyw newidiadau mewn perthynas â chyfrifon sy'n daladwy.**
- **Derbyn adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a nodi ei gynnwys.**

  **CAMAU GWEITHREDU;**

  - **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 Dros Dro i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifon i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.**
  - **Bod swyddogion yn ymchwilio i ddulliau o wneud y defnydd gorau a chael cymaint o incwm â phosibl o asedau treftadaeth yr Awdurdod (ar wahân i'r Casgliad Celf).**

**4 MATERION LLYWODRAETHU**

4.1 Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) yn ymgorffori Côd Llywodraethu Lleol drafft i'w ystyried gan y Pwyllgor ac i dderbyn eu sylwadau. Hysbyswyd yr aelodau y ffurfiwyd y Côd yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Darparu Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol sy'n gofyn i awdurdodau lleol geisio sicrhau'r arfer orau wrth fabwysiadu Côd o'r fath. Bwriad y Côd yw casglu at ei gilydd yr elfennau allweddol o lywodraethu corfforaethol sy'n bodoli yn yr Awdurdod.

Roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn y Côd Llywodraethu Lleol drafft ar yr amod y byddai'n cael ei newid i adlewyrchu'n fwy cywir graddau ac ystod y modd y mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â chymunedau, pobl leol a rhanddeiliaid ynghyd â sut y mae'n hyrwyddo cyfranogiad cymunedol.

**Penderfynwyd derbyn y Côd Llywodraethu Lleol drafft ac argymell ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn amodol ar y newid fel y nodwyd.**

**CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) i newid y Côd Llywodraethu Lleol i ymhelaethu ar elfen ymgysylltu cymunedol trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod ac wedyn i gyflwyno'r Côd i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu.**

4.2 Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, cyflwynodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad yn amlinellu ymateb ac ymagwedd y Rheolwyr tuag at fynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau a/neu adolygiadau gan Archwiliadau Allanol a Mewnol mewn perthynas â materion Rheoli Gwybodaeth/Llywodraethu. Rhestrwyd y prif faterion a gynhwyswyd yn yr adroddiadau o dan Atodiad A i'r adroddiad.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**5 FFRAMWAITH RHEOLI RISG**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro yn ymgorffori Strategaeth Rheoli Risg ddrafft ynghyd â Chanllawiau Rheoli Risg drafft cysylltiedig i'w hystyried gan y Pwyllgor. Yn ogystal, ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad C yr oedd fersiwn gychwynnol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) at y cynnydd o ran gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg fel y cofnodwyd yn gronolegol yn yr adroddiad oedd yn cwmpasu digwyddiadau yn y gorffennol yn ogystal â rhai sydd wedi'u cynllunio. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg ddrafft a'r Canllawiau drafft ynghyd â'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi cael eu cyflwyno i a'u mabwysiadu gan yr Uwch Dîm

Arwain a'u hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Archwilio am sylwadau.  Tynnwyd sylw arbennig at gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio o ran Rheoli Risg fel y nodir yn y Strategaeth ac i'r ffaith y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn hyfforddiant yn y maes hwn ar y cyd ag Aelodau o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn y dyfodol agos.

Adroddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol oedd, yr hysbysodd yr Aelodau, yn waith oedd ar fynd yn nhermau diffinio risgiau a chamau lliniarol.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr mai un o'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod o ran gweithredu gofynion y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw cynnal cydbwysedd rhwng rheoli risg a bod yn amharod i fentro.  Mae cyflawni'r cydbwysedd hwn yn allweddol yn nhermau taith gwella'r Awdurdod.

Croesawodd yr aelodau'r dogfennau mewn perthynas â Rheoli Risg ac yn enwedig y Gofrestr Risg Gorfforaethol, yr ystyriwyd ei ffurf a'i chynnwys yn y drafodaeth fer ddilynol.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr adroddiad a'r dogfennau Rheoli Risg cysylltiedig**
- **Argymell mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Risg ddrafft a'r Canllawiau Drafft gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod nesaf.**

**CAM GWEITHREDU:  Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i gyflwyno'r Strategaeth Rheoli Risg ddrafft a'r Canllawiau Rheoli Risg i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu.**

**6   ARCHWILIO ALLANOL**

6.1  Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, cyflwynodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro adroddiad mewn perthynas â chanfyddiadau archwiliad gan PwC o ddangosyddion perfformiad y Cyngor.

Hysbysodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro yr Aelodau, o dan y Fframwaith Gwella Perfformiad Cenedlaethol a sefydlwyd yn Ebrill 2011, y disgwylir, yn gorfforaethol, i'r Awdurdod Lleol adrodd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ynghylch nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol.  Unwaith y cesglir yr wybodaeth honno, fe'i harchwilir gan PwC i weld a yw'n cydymffurfio.  Nodwyd manylion canfyddiadau PwC yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglenni a Chynllunio Busnes yr Aelodau at adran 2.1 o'r adroddiad oedd yn rhestru'r Dangosyddion Perfformiad a archwiliwyd yn 2011/12 ynghyd â'r rhesymau dros y dewis hwnnw.  Tynnodd sylw'r Aelodau at y ffaith fod tri DP yn amodol a bod y rhain ym meysydd Addysg, Rheoli Gwastraff a Niferoedd Ymwelwyr.  Eglurodd y rhesymau dros pam yr oedd yr Archwilydd wedi gwneud y dangosyddion hyn yn amodol ynghyd ag ymateb yr Awdurdod yn nhermau'r camau lliniaru a nodwyd.

**Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth a'r camau lliniaru a nodwyd er gwybodaeth.**

6.2  Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Gwaith ac Amserlen yr Archwiliad Allanol.

Ymhelaethodd Mr Andy Bruce, SAC ar y gweithgareddau a restrir yn yr adroddiad ynghyd â'u statws a ffurf yr allbynnau o safbwynt gwaith sy'n berthnasol i bob cyngor yng Nghymru a gwaith sy'n benodol i Ynys Môn.

Cyfeiriodd Mr Huw Lloyd Jones at un o'r allbynnau yn ffurf Llythyr Asesiad Gwella 1 yr Archwilydd Cyffredinol a ddanfonwyd i'r Cyngor ar 24 Medi a darparodd grynodeb llafar i'r Pwyllgor o brif gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol fel y'u nodwyd yn y Llythyr fel a ganlyn -

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru
- Yn seiliedig ar ac wedi'u cyfyngu i waith a gynhaliwyd gan SAC hyd yma ynghyd â rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i ddiogelu gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â 10 thema gwella llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr

DRAFT

- Mae eglurder o ran cyfeiriad y Cyngor yn gwella a bu cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf
- Mae ailstrwythuro uwch reolwyr yn ychwanegu'n sylweddol at gapasiti'r Cyngor a'i allu i gyflawni gwelliant pellach o fewn swyddogaethau corfforaethol a rhai sy'n benodol i wasanaethau
- O ran materion dadleuol, mae'r Cyngor yn delio â hwy'n fwy aeddfed nag o'r blaen ac mae wedi cymryd camau i sicrhau bod y gwelliant yn gynaliadwy
- Mae'r Cyngor wedi gwella'r modd y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dechrau mynd i'r afael ag adnewyddu democrataidd
- Mae'r Cyngor wedi ymateb mewn modd adeiladol a chyfrifol i'r arolwg tra beirniadol diweddar o'i wasanaethau addysg gan Estyn a SAC

Ni wna'r llythyr unrhyw gynigion eraill ar gyfer gwella ac, yn seiliedig ar y canfyddiadau a restrir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dod i'r casgliad fod yr amser yn iawn bellach i weithredu'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf y dylai Gweinidogion Cymru hyrwyddo trosglwyddiad graddol y pŵer i wneud penderfyniadau o'r Comisiynwyr i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ac, o ganlyniad, dylid ailddiffinio rôl y Comisiynwyr i fod yn fwy o rôl oruchwylio. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dweud ei fod yn cytuno â gwerthusiad y Comisiynwyr fod yr amodau wedi'u creu bellach fyddai'n galluogi'r Gweinidog i ystyried dychwelyd i reolaeth ddemocrataidd gyda diogelwch.

Eglurodd y Prif Weithredwr y derbyniwyd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn rhy hwyr i'w gynnwys ar agenda'r Pwyllgor Archwilio ond y cyfeirid ato yng nghyfarfod y Cyngor Sir sydd i'w gynnal ar 27 Medi ynghyd ag adroddiad Chwarter 5 y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru. Byddai Llythyr Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cael ei ystyried yn fanwl gan y Bwrdd Cynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 1 Hydref. Disgwyliwyd cyhoeddiad ffurfiol gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn fuan. Pwysleisiodd, tra bo casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu newyddion a groesawir yn fawr iawn, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu nifer o heriau yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau hefyd yn croesawu'r wybodaeth ac yn cydnabod fod sawl her i ddod.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**7 ATAL TWYLL A LLYGREDD**

7.1 Er gwybodaeth i'r pwyllgor, cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll a Llygredd sy'n cofnodi gweithgaredd yn y maes gwasanaeth hwn yn ystod 2011/12.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol a nodi ei gynnwys**

7.2 Cyflwynwyd y polisïau drafft a ganlyn i'w hystyried gan y Pwyllgor ac er mwyn derbyn eu sylwadau:

- Y Polisi Atal Twyll a Llygredd Drafft sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru
- Y Cynllun Ymateb i Dwyll Drafft
- Y Polisi Gwyngalchu Arian Drafft

**Penderfynwyd argymell mabwysiadu'r polisïau a ganlyn gan y Prif Weithredwr:**

- **Y Polisi Atal Twyll a Llygredd**
- **Y Cynllun Ymateb i Dwyll**
- **Y Polisi Gwyngalchu Arian Drafft**

**CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) i gyflwyno'r polisïau dywededig i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu.**

**8 ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd oedd yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Fewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 14 Medi 2012 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) bwyntiau mwyaf amlwg yr adroddiad yr hysbysodd yr Aelodau ei fod mewn ffurf ddiwygiedig oedd yn golygu ei fod bellach yn ymhelaethu ar y canfyddiadau allweddol o arolygon archwilio.  Amlygodd y ffaith y cyhoeddwyd un adroddiad yn y cyfnod oedd yn cario barn 'Sicrwydd Coch', yr atodwyd crynodeb gweithredol ohono i'r adroddiad.  Tra bo perfformiad yn nhermau canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd yn is na'r targed ar 62% (yn bennaf oherwydd arallgyfeirio adnoddau i gynnal adolygiadau cyfeirio), roedd canran yr argymhellion oedd wedi'u dosbarthu'n Dymor Uchel a Chanolig yn uwch na'r targed ar 85%.  Darparwyd dadansoddiad o weithrediad argymhellion fesul gwasanaeth yn Atodiad A.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 9 STAFF DROS DRO

Darparodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) adroddiad llafar byr i'r Pwyllgor ar y sefyllfa mewn perthynas ag ymgysylltu â staff dros dro o fewn y Gwasanaeth Cyllid yn nhermau costau a'u swyddogaeth.  Ar y pryd, roedd 3 swydd o fewn y Gwasanaeth a gymerwyd gan staff dros dro (yn ogystal â swydd y Swyddog Adran 151) ac mae'r rhain yn rolau cyfrifyddiaeth uwch mewn meysydd sydd yn y gorffennol wedi profi i fod yn anodd eu llenwi'n barhaol ar y lefel a hysbysebwyd.  Pwysleisiodd bwysigrwydd profiad ac arbenigedd y staff dros dro sydd yn y swyddi cyfrifyddiaeth lefel uchel hyn i'r broses o baratoi'r cyfrifon ac yn enwedig o ran sicrhau cwblhau a chyflwyno cyfrifon 2011/12 yn amserol.  Cefnogwyd lleoli'r staff dros dro gan y Bwrdd Gwella ar y pryd.  Yn dilyn cwblhau a chyflwyno'r cyfrifon, y bwriad o hyn ymlaen yw symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar staff asiantaeth ar lefel uchel a cheisio llenwi'r swyddi hyn yn barhaol.  Eglurodd y swyddog y camau a gymerir i wireddu'r broses hon.

Ceisiodd yr Aelodau eglurhad pellach o faterion mewn perthynas â chostau staff asiantaeth.  Gwnaed y pwynt hefyd fod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael yr enillion gorau bosibl ar ei fuddsoddiad mewn hyfforddeion proffesiynol yn nhermau eu bod yn aros yng nghyflogaeth y Cyngor ar ôl cymhwyso.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry-Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | C12407 |
| **Dyddiad** | 29 11 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o 3 |

Annwyl Mr Jones

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi

2012 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012.

Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd i fynd i'r afael â phroblemau wrth lunio'r datganiad o gyfrifon a bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon, sef 30 Medi. Mae'r Cyngor yn haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am y ffordd y mae wedi ymdrin â'r gwelliannau angenrheidiol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi ein gwerthfawrogiad o'r cymorth a gawsom gan swyddogion yn y Cyngor yn ystod yr archwiliad. Er bod hyn i'w groesawu'n fawr, hoffwn hefyd bwysleisio ei bod hi'n bwysig sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu cynnal. Ar hyn o bryd staff dros dro sydd yn yr uwch swyddi cyfrifyddu o hyd. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn y dyfodol yn unol â'r amserlenni gofynnol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- mae'r rhagolwg ariannol i'r Cyngor yn parhau i fod yn heriol iawn ac mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol ar waith i nodi'r bwlch ariannu a hwyluso'r arbedion sy'n ofynnol. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd yn y byrdymor i sicrhau'r arbedion sy'n ofynnol;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn o ran datblygu prosesau rheoli risg ac mae'n bwysig cynnal hyn;
- mae'r archwilydd allanol wedi nodi nad oes cynlluniau cadarn ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac mae hyn yn wir o hyd;
- roedd 50% o'r hawliadau grant a ardystiwyd gan PwC o ran 2010/11 yn destun llythyr amodi (48% yn 2009/10). Cyflwynodd y Cyngor 10% o'r hawliadau grant ar ôl y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno, o gymharu â 66% ar gyfer 2009/10;
- rydym yn parhau i allu dibynnu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Nid wyf wedi cyhoeddi tystysgrif cwblhau am fy mod yn ystyried gwrthwynebiad gan etholwr lleol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn uwch na'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i ddelio â'r gwrthwynebiad i'r cyfrifon.

Yn gywir

Lynn Hine (PwC LLP)

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

29 Tachwedd 2012

This page is intentionally left blank

| | A | B | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Cynllun Gwaith ac Amserlen Chwe 2012 - Mawrth 2013** | | | | **Rheolwr Rhanbarthol Llywodraeth Leol** | | | Huw Lloyd Jones | | | |
| 3 | | | | | **Arweinydd Archwiliad Perfformiad** | | | Andy Bruce | | | |
| 4 | | | | | **Arweinydd Ymgysylltu ag Archwilio Ariannol** | | | Lynn Hine | | | |
| 5 | | | | | **Rheolwr Archwilio Ariannol** | | | James Quance | | | |
| 6 | | | | | **Arolygydd cyswllt AGGCC** | | | Marc Roberts | | | |
| 7 | **ENW'R AWDURDOD - Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | **Arolygydd Cyswllt Estyn** | | | Maldwyn Pryse | | | |
| 8 | | | | | | | | | | | |
| 9 | **Sefyllfa ar ddiwedd Rhagfyr 2012** | | | | | | | | | | |
| 10 | | | | | | | | | | | |
| 11 | | | | | | | | | | | |
| 12 | | | **2012** | | | | **2013** | | | | |
| 13 | **Gweithgarwch** | **Allbwn** | **Chwe-Mawrth** | **Ebrill-Mehefin** | **Gorff-Medi** | **Hyd-Rhag** | **Ion-Mawrth** | **Statws** | **Unigolyn Cyswllt Rheoleiddio** | **Unigolyn Cyswllt y** | **Sylw** |
| 14 | **Gwaith sy'n cael ei wneud ym mhob un o'r cynghorau** | | | | | | | | | | |
| 15 | **Gwirio cynnydd** - meysydd i'w gwella | **Llythyr IA 1 2012** | | | | | | | | | |
| 16 | **TRhC Newydd** | | | | | | | **Parhaus** | James Quance | Neville Evans | Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o allbynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynyddol |
| 17 | **Trosglwyddo pŵer i aelodau** | | | | | | | **Parhaus** | Huw Lloyd Jones | Neville Evans | Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o allbynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynyddol |
| 18 | **Cynhwysedd a Gallu** | | | | | | | **Parhaus** | James Quance | Neville Evans | Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o allbynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynyddol |
| 19 | **Mesurau llwyddiant, amcanion gwella, ac ati** | | | | | | | **Cwblhawyd** | John Roberts | Neville Evans | Adborth |
| 20 | **Arall amrywiol** | | | | | | | **Parhaus** | James Quance | Neville Evans | Gan fod y rhain yn barhaus, gall fod mwy o allbynnau yn Llythyr IA 2 a'r Adroddiad Gwella Blynyddol |
| 21 | **Gwirio cynnydd** - meysydd eraill i'w monitro | **Llythyr AG 1 2012** | | | | | | **Cwblhawyd** | Andy Bruce | Neville Evans | Adroddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2012 |
| 22 | Archwilio Cynllun Gwella 2012 | **Llythyr AG 1 2012** | | | | | | **Cwblhawyd** | Andy Bruce | Neville Evans | Adroddwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2013 |
| 23 | **Astudiaeth Wella - Effeithiolrwydd craffu** | **adroddiad cenedlaethol** | | | | | | **Parhaus** | Andy Bruce | Neville Evans | Prosiect yn mynd rhagddo. Adborth a drefnwyd rhwng mis Mawrth a Medi 2013 |
| 24 | **Astudiaeth Wella - Paratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol** | **Adborth Lleol /Cenedlaethol** | | | | | | **Parhaus** | Andy Bruce | Neville Evans | Dechreuodd y prosiect 4/12/12 ac adborth lleol mis Mawrth 2012 gyda nodyn ymarfer cenedlaethol i'w wneud ym Mai 2013. Digwyddiadau dysgu a rennir wedi'i gynllunio o Gorffennaf 2013 |
| 25 | **Profi ac Archwilio** Cyhoeddiad Asesu Perfformiad Cynghorau | **Llythyr AG 2 2012** | | | | | | **Cwblhawyd** | Andy Bruce | Neville Evans | Llythyr drafft yn cael ei gwblhau ar gyfer fater i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2012. |
| 26 | **Archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad** | **Llythyr AG 2 2012** | | | | | | **Cwblhawyd** | James Quance | Neville Evans | |
| 27 | **Archwilio mecanweithiau hunanwerthuso** | **AGB 2013** | | | | | | **Parhaus** | Andy Bruce | Neville Evans | Mae'r gwaith yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2013. Bydd yr adroddiad yn ddyledus yn Chwefror 2013 |
| 28 | **Astudiaeth Cymru Gyfan Llywodraeth Leol 2011-12** – Her Ariannol | **GPX** | | | | | | **Cwblhawyd** | John Roberts | Neville Evans | Bydd y gwaith yn cael ei fwydo yn ôl drwy'r rhwydwaith arfer da (GPX) ac o bosib rhai seminarau, gynnar yn 2013 |
| 29 | **Arolygu budd-dal Tai a Threth y Cyngor** | **adborth i'r Cyngor** | | | | | | **Cwblhawyd** | Andy Bruce | Neville Evans | Mae'r gwaith wedi ei gwblhau a bydd adborth yn cael ei drefnu gyda'r Cyngor gan y tîm astudio. Bydd y canfyddiadau o'r adolygiad yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) |
| 30 | **Astudiaeth Cymru Gyfan Llywodraeth Leol 2012-13** – NACH | **Adroddiad Cymru Gyfan** | | | | | | **Heb ddechrau** | Andy Bruce | Neville Evans | Mae'r gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer Mawrth 2013 |
| 31 | **Gwirio cynnydd** - meysydd i'w gwella | **Llythyr AG 1 2013** | | | | | | **Heb ddechrau** | Andy Bruce | Neville Evans | |
| 32 | **Gwirio cynnydd** - meysydd eraill i'w monitro | **Llythyr AG 1 2013** | | | | | | **Heb ddechrau** | Andy Bruce | Neville Evans | |

| | A | B | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Gweithgarwch** | **Allbwn** | **Chwe-Mawrth** | **Ebrill-Mehefin** | **Gorff-Medi** | **Hyd-Rhag** | **Ion-Mawrth** | **Statws** | **Unigolyn Cyswllt Rheoleiddio** | **Unigolyn Cyswllt y** | **Sylw** |
| 33 | Archwilio Cynllun Gwella 2013 | Llythyr AG 1 2013 | | | | | | Heb ddechrau | Andy Bruce | Neville Evans | |
| 34 | **Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn** | | | | | | | | | | |
| 35 | Hwyluso parhaus amrywiol | | | | | | | Cwblhawyd | Chris Bolton | Neville Evans | Comisiynwyd y gwaith hwn yn 2011-12 |
| 36 | Hwyluso parhaus amrywiol 2 | | | | | | | Cwblhawyd | Chris Bolton | Neville Evans | Comisiynwyd y gwaith hwn yn 2012-13 yn dilyn adborth o'r gweithdai hwyluso cychwynnol. Gwaith wedi ei gwblhau. |
| 37 | Digartrefedd | AIR 2013 | | | | | | Parhaus | Andy Bruce | Neville Evans | Mae'r gwaith yn digwydd 3ydd wythnos ym mis Rhagfyr 2012 a bydd yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Chwefror 2013 |
| 38 | Materion yn deillio o weithgarwch arolygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | AIR 2013 | | | | | | Parhaus | Andy Bruce | Neville Evans | Bydd y diweddariadau yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol Chwefror 2013 |
| 39 | Materion yn deillio o weithgarwch arolygu Estyn | AIR 2013 | | | | | | Parhaus | Andy Bruce | Neville Evans | Bydd y diweddariadau yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol Chwefror 2013 |
| 40 | Cydweithio | I'w gadarnhau | | | | | | Heb ddechrau | Andy Bruce | Neville Evans | Yr adolygiad i'w gynnal ym mis Mawrth neu ddechrau 2013 yn y flwyddyn ariannol newydd. Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu gweithio gyda Iechyd ac AGGCC ar yr adolygiad |
| 41 | Rheoli prosiect | I'w gadarnhau | | | | | | Ar Waith | James Quance | Neville Evans | Mae hyn yn ymwneud â dim ond diwrnod neu ddau sydd wedi cael eu cario drosodd o 2011-12 |
| 42 | **Gwaith Arolygwyr Perthnasol** | | | | | | | | | | |
| 43 | AGGCC | | | | | | | Heb ddechrau | Marc Roberts | | |
| 44 | Arolygiadau Rheoleiddio | Adroddiad o'r gwasanaeth ar wefan AGGCC | | | | | | Parhaus | Marc Roberts | | Mae rhain yn delio ag amrywiaeth o dai a gwasanaethau unigol |
| 45 | Adolygiadau / Arolygiadau Cenedlaethol | | | | | | | Heb ddechrau | Marc Roberts | | Dim bwriad ar hyn o bryd |
| 46 | ESTYN | Adroddiad cyhoeddedig | | | | | | Cyhoeddwyd | Maldwyn Pryse | | |
| 47 | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | | | | | | Heb ddechrau | | | |
| 48 | Bwrdd yr Iaith Gymraeg | | | | | | | Heb ddechrau | | | |
| 49 | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | | | Heb ddechrau | | | |
| 50 | Arolygiaeth Iechyd Cymru | | | | | | | Heb ddechrau | | | |
| 51 | **Astudiaethau Eraill yr Archwilydd Cyffredinol ar draws y sector cyhoeddus** | | | | | | | | | | |
| 52 | Gweler y daflen waith ar wahân | | | | | | | | | | |
| 53 | **Archwiliad Ariannol** | | | | | | | | | | |
| 54 | | | | | | | | | | | |
| 55 | | | | | | | | | | | |
| 56 | | | | | | | | | | | |

| | A | B | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Gweithgarwch | Allbwn | Chwe-Mawrth | Ebrill-Mehefin | Gorff-Medi | Hyd-Rhag | Ion-Mawrth | Statws | Unigolyn Cyswllt Rheoleiddio | Unigolyn Cyswllt y | Sylw |
| 73 | | | | | | | | | | | |

This page is intentionally left blank

# *Cyngor Sir Ynys Môn*

# Adroddiad ar gynnydd yr archwiliad ariannol i'r Pwyllgor Archwilio - 12 Rhagfyr 2012

*Rhagfyr 2012*

***Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig***

*Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio (y Cod) Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Caiff hwn ei ategu gan y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan Brif Weithredwr pob corff archwiliedig. Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo archwilwyr a chyrff archwiliedig drwy esbonio cwmpas cyfrifoldebau archwilwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan gyrff archwiliedig mewn meysydd penodol. Paratoir ein hadroddiadau a'n llythyrau yng nghyd-destun y datganiad hwn ac yn unol â'r Cod.*

*Caiff yr adroddiadau a'r llythyrau a baratoir gan archwilwyr a benodwyd a'u cyfeirio at aelodau neu swyddogion eu paratoi at ddefnydd y corff archwiliedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr archwilwyr i unrhyw Aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.*

pwc

# *Tabl Cynnwys*

Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2011/12 ........ 3
Datganiad Cyfrifon 2011/12 ........ 3
Grantiau ........ 4
Trefniadau cysylltu ........ 4

# *Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2011/12*

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr archwiliad ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol terfynol a nodir yn yr amlinelliad o Archwiliad ariannol 2011/12 a gwaith ardystio grantiau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

| | Erbyn | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| **Cyfrifon** | | |
| Amlinelliad o archwiliad ariannol 2011/12 | Chwefror 2012 | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror. |
| Adolygiad interim a chynllunio'r archwiliad o'r cyfrifon | Mawrth/Ebrill 2012 | Gwnaethom ymweld â'r cyngor ddwywaith, gan gwblhau ffug brofion ar y cylch rheolaethau a dechrau gwaith ar bob maes gwariant, croniadau absenoldeb cronedig, dyledwyr amrywiol, balansau banc a buddsoddi, incwm grant a gwasanaeth ac asedau sefydlog, gan gynnwys prisiadau. |
| Cyflwyniad i'r archwiliad | 25 Ebrill 2012 | Cyflwynwyd i dîm cyllid y Cyngor a swyddogion perthnasol eraill ar 25 Ebrill 2012. |
| Profi datganiadau ariannol | Gorffennaf – Medi 2012 | Cwblhawyd. |
| Adroddiad ar y cyfrifon terfynol (ISA 260) | Medi 2012 | Cyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi. |
| Barn archwilio | Medi 2012 | Rhoddwyd gan yr Archwilydd Penodedig ar 28 Medi 2012 |
| Cyfrifon y llywodraeth gyfan | Medi 2011 | Cwblhawyd ac ardystiwyd ar 28 Medi 2012. |
| Llythyr blynyddol | Tachwedd 2012 | Cyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd. Gweler yr eitem ar yr agenda ar wahân. |
| Tystysgrif gwblhau | Fe'i disgwylir erbyn diwedd mis Rhagfyr | Rydym wrthi'n gorffen ein gwaith mewn ymateb i nifer o wrthwynebiadau a wnaed i'r cyfrifon gan etholwr lleol. Ni all yr Archwilydd Penodedig roi tystysgrif gwblhau nes y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. |

## *Datganiad Cyfrifon 2011/12*

Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio o ganlyniad ein harchwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2011/12 ym mis Medi a rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar y cyfrifon ar 28 Medi 2012.

Fodd bynnag, ni roddodd yr Archwilydd Penodedig dystysgrif gwblhau am fod etholwr lleol wedi gwneud nifer o wrthwynebiadau i'r cyfrifon a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth a gwaith ymchwil. Cawsom ragor o wybodaeth gan y Cyngor a'r etholwr ac rydym wrthi'n cwblhau'r gwaith o brofi'r wybodaeth er mwyn hysbysu'r etholwr o'r canlyniad.

# *Grantiau*

**Grantiau 2010/11**

Rydym bellach wedi ardystio pob un o hawliadau 2009/10 ac eithrio'r Cymhorthdal Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor sydd wrthi'n cael eu hadolygu cyn eu hardystio.

**Grantiau 2011/12**

Ardystiwyd y rhan fwyaf o hawliadau 2011/12 yr oedd yn ofynnol eu cyflwyno cyn diwedd mis Hydref a mis Tachwedd, ac eithrio'r Cymhorthdal Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor a Chronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf Porthyfelin. Mae gwaith maes yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r cyntaf, tra bod rheolwyr wrthi'n cwblhau'r hawliad a'r papurau gwaith ar gyfer yr olaf. Gwnaed cynnydd da hefyd o ran y 13 o hawliadau grant â therfyn amser o 31 mis Rhagfyr 2012.

# *Trefniadau cysylltu*

**â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau dull archwilio effeithiol. Rydym wedi cael yr adroddiadau archwilio mewnol y byddwn yn eu defnyddio i lywio ein gwaith ar gyfrifon 2011/12 yn gynt nag y gwnaethom eu cael mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd wedi adolygu Cynllun Gweithredol drafft y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 er mwyn sicrhau na cheir unrhyw ddyblygu o ran y gwaith a wneir gennym ni a gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol.

**â'r rheolwyr**

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwyr i sicrhau ein bod yn deall y materion allweddol a wynebir gan y Cyngor er mwyn asesu eu heffaith ar ein dull archwilio. Rydym yn parhau i weithio gyda'r rheolwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer rhoi system gyfrifyddu newydd ar waith a pharhau â momentwm y gwelliant a nodwyd yn ystod proses cyfrifon ac archwilio 2011/12.

**â SAC**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda SAC ac yn ei chefnogi gyda'i gwaith parthed y Mesur Llywodraeth Leol.

Rydym hefyd yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett a chydag archwilwyr eraill awdurdodau lleol yng Nghymru yn y Grŵp Ymarferwyr Llywodraeth Leol sy'n cyfarfod bob chwarter.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw'r deiliad, Cyngor Sir Ynys Môn, at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, fel ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae trydydd partïon perthnasol yn cynnwys PricewaterhouseCoopers LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i infoofficer@wao.gov.uk.

(h) 2012 PricewaterhouseCoopers LLP. Cedwir pob hawl. Mae "PricewaterhouseCoopers" yn cyfeirio at PricewaterhouseCoopers LLP (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig) neu, gan ddibynnu ar y cyd-destun, gwmnïau eraill sy'n aelodau o PricewaterhouseCoopers International Limited, y mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân.

Diogelir yr adroddiad hwn o dan gyfreithiau hawlfraint y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Ni chaniateir defnyddio'r wybodaeth hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, na'i datgelu heb ganiatâd ysgrifenedig PricewaterhouseCoopers LLP.

C12417

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR : | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD : | 12 RHAGFYR 2012 |
| TEITL YR ADRODDIAD : | ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 01 EBRILL 2012 – 16 TACHWEDD 2012 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN : | RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON |
| GWEITHREDU: | Penderfyniadau / Cymeradwyaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2012-13 yn y Pwyllgor Archwilio a gafwyd ar 24 Mai 2012. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 16 Tachwedd 2012 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol y rhoddwyd iddynt farn 'Sicrwydd Coch' ynghyd â Chrynodebau Gweithredol o'r adroddiadau.

**1.3** Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', cynhelir Adolygiad Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw, nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o ran gweithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r Adroddiad Terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Cafwyd dau adolygiad yn ystod y cyfnod a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Mae'r Crynodebau Gweithredol ar gyfer yr adroddiadau hyn ynghlwm fel Atodiad B ac C i'r adroddiad hwn. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd 5 adolygiad gan gynnwys y 2 adroddiad hyn, mewn perthynas â materion yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth, Rheoli Perfformiad a Diogelwch Data gan PWC, SAC a'r Uned Archwilio Mewnol. Oherwydd bod nifer o'r casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn yn debyg, mae'n well rhoi sylw iddynt gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân. O'r herwydd, mae'r argymhellion o'r adroddiadau hyn i gyd wedi cael eu dwyn ynghyd mewn un cynllun gweithredu sy'n cael sylw gan y Grŵp Rheoli Gwybodaeth dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau Dros Dro. Adroddir ar gynnydd y Grŵp Rheoli Gwybodaeth i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.

**1.5** Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaethau

Allweddol, Adolygiadau Sefydliad neu Adolygiadau Ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

**1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

## 2. YR ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD HYD YMA A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

2.1 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

**Tabl 1**

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| *Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg/ Adolygiadau System* | | | | |
| Diogelwch Data | TGCh / Cyfreithiol | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Oriel | Hamdden | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Rheoli Cofnodiadau Modern | Gydol Oes | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Pwrcasu UCA | Tai | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Targedau Carbon ac Effeithlonrwydd Ynni | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Dilyn i Fyny – Argymhellion Ysgol | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | Ychydig o gynnydd |
| Lwfansau Aelodau | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Taliadau Uniongyrchol – Gwas Cym | Gwas Cym | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Cludiant Ysgol | Trafnidiaeth | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Arforol – Incwm | Priffyrdd | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Menter Genedlaethol – Twyll | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Risg – Gweithredu | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Y Dreth Gyngor | Cyllid | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Cyllid | 2012/13 | Yn mynd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | rhagddo | |
| Budd-dal Tai | Cyllid | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Y Gyflogres a Goramser | Cyllid | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Credydwyr | Cyllid | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Pwrcasu Corfforaethol | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Pennu'r Gyllideb a'i Monitro | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| ***Ysgolion*** | | | | |
| Ysgol Rhosybol | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol Bodffordd | Addysg | 2012/13 | DRAFFT | |
| ***Cyfeiriadau*** | | | | |
| Adroddiad 9 12-13 | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | |
| Adroddiad 10 12-13 | Trafnidiaeth | 2012/13 | TERFYNOL | |
| Adroddiad 11 12-13 | Addysg | 2012/13 | INTERIM | |

**2.2** Casgliadau Allweddol o'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd

**2.2.1 Diogelwch Data –** Cynhaliwyd archwiliad o Ddiogelwch Data fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Diogelu Data yw'r ymarfer o warchod data rhag llygredd a sicrhau nad oes neb heb awdurdod yn gallu ei weld. Mae diogelu data yn canolbwyntio ar sicrhau preifatrwydd ac, ar yr un pryd, diogelu data personol neu gorfforaethol.

Un o amcanion allweddol llywodraeth electronig yw sicrhau y gall cwsmeriaid ddarparu manylion personol, drwy'r rhyngrwyd o bosib, i ddatgloi cyfres o ffynonellau gwasanaeth sydd ar gael gan wahanol ddarparwyr. Dyma'r hyn y mae cynghorau ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn ceisio ei gyflawni. Fodd bynnag, i hyn ddigwydd, mae angen i'r cwsmeriaid fod yn hyderus fod eu manylion yn cael eu casglu, eu storio, eu gweld, eu defnyddio a'u gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn golygu fod rhaid defnyddio a chyfnewid gwybodaeth yn effeithiol yn y cynghorau a rhwng cynghorau a gwasanaethau eraill megis Iechyd ac Addysg. Mae'n hanfodol felly fod y cyhoedd yn hyderus fod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddynt yn cael ei thrin gyda'r lefel briodol o gyfrinachedd a'i chadw'n ddiogel rhag unrhyw risg o gamddefnydd.

Yn dilyn yr achosion diweddar o golli data personol megis yr achos a oedd yn ymwneud â Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi, rhaid i bob corff cyhoeddus ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y modd y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin a'i chadw'n ddiogel.

Canfu'r adolygiad bod nifer o wendidau yn y fframwaith rheoli mewn perthynas â diogelwch data. Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:

**Dylunio fframwaith rheoli**

- Nid yw'r Cyngor wedi enwebu Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a Pherchenogion Asedau Eiddo yn unol â gofynion Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol.

- Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Polisi Rheoli Gwybodaeth.

- Nid yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau a chefnogaeth ddigonol i gryfhau ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn unol â chanfyddiadau ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilwyr Allanol y Cyngor a'r Uned Archwilio Mewnol.

- Nid oes contract yn ei le ar gyfer cael gwared ar wybodaeth gyfrinachol a chanfuwyd bod y trefniadau rheoli mewnol cyfredol yn wan.

**Defnyddio'r fframwaith rheoli a chydymffurfio â fo**

Canfuwyd bod y trefniadau rheoli o ran caniatáu mynediad rhesymegol i rwydwaith y Cyngor a thynnu ymaith yr hawl honno yn achos gweithwyr newydd a rhai a oedd yn gadael yn wan o ran y cyfathrebu rhwng TGCh a'r Gwasanaethau.

Arweiniodd yr adolygiad at ddau o argymhellion categori uchel, pymtheg o rai categori canolig a dau o rai categori isel a barn archwilio COCH.

Gellir gweld gwybodaeth ychwanegol ar ganlyniadau'r adolygiad hwn yn y Crynodeb Gweithredol yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

2.2.2 **Oriel Ynys Môn** – Cynhaliwyd archwiliad o drefniadau ariannol Oriel Ynys Môn fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Mae gan yr Oriel siop a chaffi ac yn ôl y cofnodiadau, roedd nifer yr ymwelwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 yn 98 106. Costau rhedeg net yr Oriel ar gyfer 2011/12 (gwariant llai incwm – gan gynnwys incwm o £250k gan Ymddiriedolaeth Ynys Môn) oedd £243k, sef £33k dros y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

I bwrpas cyfrifo, roedd y prif gasgliadau celf a oedd yn yr Oriel ar 19 Mawrth 2012 werth £1.4m yn y Gofrestr Asedau.

Mae trefniadau rheoli casgliadau Oriel Ynys Môn yn gyson â'r Safonau Achredu Amgueddfeydd a oruchwylir yng Nghymru gan CyMAL (Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru).

Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Ar adeg yr adolygiad, roedd Oriel Ynys Môn yn y broses o ddwyn ynghyd elfennau o'r polisi a'r gweithdrefnau cyfredol yn Gynllun cynhwysfawr ar gyfer Rheoli Casgliadau.

- Mae'r Oriel hefyd wrthi'n cyflwyno system ffurfiol ar gyfer rheoli stoc. Bydd hyn yn lleihau'r risg o fethu cyfrif yn ddigonol am eitemau o'r stoc rhwng y gwiriadau stoc blynyddol.

- Mae'r drefn gyfredol ar gyfer cysoni'r arian a gymerir i mewn bod dydd yn golygu bod un swyddog yn gorfod nodi'r cyfansymiau wythnosol o ran incwm a gasglwyd a llofnodi'r record fancio er mwyn sicrhau bod y cyfan o'r incwm yn cael ei fancio. Mae hyn yn

ychwanegu at y risg o afreoleidd-dra a chamgymeriad o ran yr incwm sy'n cael ei gasglu a'i fancio.

**Defnyddio'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Er y canfuwyd bod cofnod o'r rhan fwyaf o gasgliadau celf yr Oriel, canfuwyd rhai esiamplau lle nad oedd cofnodion a hynny mewn perthynas â dau gasgliad bychan.

Arweiniodd yr adolygiad at un argymhelliad categori uchel, dau argymhelliad categori canolig ac wyth argymhelliad categori isel a barn archwilio gyffredinol a oedd yn WYRDD / AMBR.

2.2.3 **Rheoli Cofnodiadau Modern** – Cynhaliwyd archwiliad o'r trefniadau ar gyfer Rheoli Cofnodiadau Modern fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Roedd yr adolygiad yn rhannol seiliedig ar gydymffurfiaeth Cyngor Sir Ynys Môn gydag arferion a argymhellwyd ar gyfer rheoli cofnodiadau a safonau'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safoni (ISO 15489-1:2001). Dylid pwysleisio bod yr adolygiad yn ymwneud â dulliau ac arferion y Cyngor o ran Rheoli Cofnodiadau Modern ac nid oedd yn adolygiad o Archifdy newydd Ynys Môn per se er bod yr adolygiad yn cynnwys y trefniadau hyn.

Rheoli Cofnodiadau yw'r arfer o ddefnyddio dulliau rheoli systematig o ran ymdrin â gwybodaeth gofnodedig wrth redeg busnes yn ystod oes y cofnodiadau hynny o adeg eu creu neu eu derbyn, eu prosesu, eu cylchredeg, eu cynnal a'u defnyddio hyd at gael gwared arnynt yn derfynol. Pwrpas rheoli cofnodiadau yw hyrwyddo effeithlonrwydd mewn perthynas â chadw cofnodiadau er mwyn sicrhau y ceir gwared yn briodol ac yn systematig ar gofnodiadau di-werth tra bod gwybodaeth werthfawr a defnyddiol yn cael ei gwarchod a'i chadw mewn modd sy'n hwyluso mynediad iddi a defnydd ohoni.

Dyma oedd prif ganfyddiadau'r adolygiad:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Polisi Rheoli Cofnodiadau sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i reoli cofnodiadau mewn modd systematig ac i sicrhau atebolrwydd ac arferion effeithiol drwy'r Cyngor.

- Nid yw'r cyngor wedi neilltuo adnoddau neu gyllideb ar gyfer arferion rheoli cofnodiadau megis trosglwyddo a chael gwared ar gofnodiadau. Fodd bynnag, wedi cael gwybod am y costau a oedd yn gysylltiedig gyda throsglwyddo a phrosesu'r cofnodiadau i'r hen Ysgol y Graig ac Archifau Ynys Môn ers Medi 2011, canfuwyd bod y Cyngor yn gwario miloedd o bunnau bob blwyddyn ar drosglwyddo cofnodiadau i lefydd storio ac ar gael gwared ar wastraff cyfrinachol.

- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi dau bolisi ynghylch cadw cofnodiadau ar fewnrwyd y Cyngor sy'n gwrthdaro. Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'r naill bolisi neu'r llall yn ffurfiol.

- Ychydig o gapasiti sydd gan y Cyngor o ran ail-leoli a throsglwyddo'r cofnodiadau sy'n cael eu storio ar hyn o bryd yn hen Ysgol y Graig i Archifdy Ynys Môn.

- Nid yw'r trefniadau ar gyfer casglu a throsglwyddo'r cofnodiadau modern i'r cyfleusterau storio wedi cael eu ffurfioli. Nid oes unrhyw gytundeb ffurfiol gyda'r contractwr cyfredol i sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel.

- Nid yw'r trefniadau ar gyfer casglu a chael gwared ar wastraff cyfrinachol wedi cael eu ffurfioli. Nid oes unrhyw gytundeb ffurfiol gyda'r contractwr cyfredol i gasglu a chael gwared ar wastraff cyfrinachol nac ychwaith unrhyw ofyniad i brofi y cafwyd gwared ar y fath wastraff.

**Defnyddio'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Nid yw'r trefniadau storio cyfredol ar gyfer cofnodiadau modern y Cyngor y tu allan i Archifdy Ynys Môn yn ddigon diogel ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer cael at ffeiliau ac /neu ddogfennau pan mae angen.

- Canfuwyd bod dogfennau a ffeiliau'n cael eu storio y tu hwnt i'r cyfnodau y mae'n ofynnol eu cadw. Mae diffyg gweithdrefnau mewn rhai gwasanaethau i nodi dogfennau nad oes angen eu storio mwyach ac i drefnu i gael gwared arnynt yn ddiogel. Rhydd hyn bwysau ychwanegol dianghenraid ar gyfleusterau storio sydd eisoes dan bwysau.

- Lle mae'r wybodaeth berthnasol yn bersonol neu'n sensitif ac nad oes ei hangen mwyach i'r pwrpas y cafodd ei chasglu ar ei gyfer, mae parhau i'w chadw yn groes i Ddeddf Diogelu Data (Egwyddor 5), sy'n dweud na fydd 'Personal data processed for any purpose or purposes shall not be kept for longer than is necessary for that purpose or those purposes.'

- Yn dilyn adolygu dau gyflenwr a ddefnyddir i drosglwyddo cofnodiadau a chael gwared arnynt, canfuwyd bod y Cyngor wedi pwrcasu gwaith ar sail ad hoc heb ddilyn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor o ran cyfanswm gwariant corfforaethol. Heb gymryd cyfanswm y gwariant i ystyriaeth, mae'n bosibl fod y Cyngor yn gwario uwchlaw'r trothwy lle byddai rheoliadau pwrcasu'r UE yn berthnasol.

Arweiniodd yr adolygiad at wneud tri argymhelliad categori Uchel a naw o argymhellion categori Canolig a barn sicrwydd gyffredinol COCH.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar ganlyniadau'r adolygiad hwn i'w gweld yn y Crynodeb Gweithredol yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

2.2.4 **Trefniadau Pwrcasu'r Uned Cynnal Adeiladau (UCA)** - Cynhaliwyd archwiliad o Drefniadau Pwrcasu'r Uned Cynnal Adeiladau fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Edrychodd yr adolygiad ar y trefniadau sydd yn eu lle yn yr UCA i bwrcasu nwyddau a gwasanaethau.

Cyfyngwyd yr adolygiad i drefniadau'r UCA i sicrhau cydymffurfiaeth gyda chyfarwyddiadau pwrcasu Rhyngwladol, Cenedlaethol a lleol, yn enwedig Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor. Mae Rheolau Gweithdrefn Contract yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac maent wedi eu cynnwys yn adran 4.9 y ddogfen honno.

Dywed Adran 4.9.1.3 y Rheolau Gweithdrefn Contract bod y rheolau'n berthnasol i 'bob contract yr eir i mewn iddo gan neu ar ran y Cyngor a dylai gweithwyr y Cyngor ddilyn y drefn'. Dywed Adran 4.9.1.5 y Rheolau Gweithdrefn Contract bod 'contractau yn cyfeirio at yr holl drefniadau

sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor i ddarparu nwyddau, eiddo deallusol, gwaith neu wasanaethau, pa un y telir amdanynt ag arian neu fel arall.' Yn Adran 4.9.1.7 y Rheolau, dywedir bod 'y Rheolau yn ofynion gorfodol.'

Dywedir bod egwyddorion cyffredinol y Rheolau Gweithdrefn Contract yn cynnwys:

- Adran 4.9.2.1.1 – 'anelu am y canlyniadau gorau bosibl i'r Cyngor a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, gyda'r adnoddau sydd ar gael';
- Adran 4.9.2.1.2 - 'sicrhau nad yw'r canlyniad wedi ei ddifwyno oherwydd budd unrhyw unigolyn sy'n rhan o'r ymarfer, neu amheuaeth o hynny'; a
- Adran 4.9.2.1.3 – 'sicrhau cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.'

Yn 2011/12, roedd gwariant yr Uned Cynnal Adeiladu (UCA) gyda chyflenwyr allanol yn £2.55m yn seiliedig ar y cofnodiadau côd cost yn y lejer ar gyfer codau P0001 a P0999.

Casgliadau'r Adolygiad - Daethpwyd i'r casgliad fod gan yr UCA drefniadau yn eu lle mewn perthynas â phwrcasu nwyddau sy'n cynnwys disgowntiau a drefnwyd gyda chyflenwyr nwyddau a threfniadau gydag isgontractwyr yn seiliedig ar gyfraddau penodol fesul awr. Ym marn yr UCA, mae trefniadau o'r fath yn rhoi gwerth am arian i'r Cyngor.

Fodd bynnag, canfu'r adolygiad nad oedd gan yr UCA unrhyw weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod yr ymarfer pwrcasu yr ymgymerwyd ag ef gan yr UCA yn cydymffurfio gyda Gweithdrefnau Contract y Cyngor a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Adlewyrchwyd diffyg gweithdrefnau o'r fath yn y profion Archwilio pryd canfuwyd, yn y samplau o nwyddau a gwasanaethau a oedd werth dros £30k a bwrcaswyd gan yr UCA, nad oedd tystiolaeth o gydymffurfiaeth gyda Rheolau Gweithdrefn Contract o ran tendro a chontractau.

Dylid ymchwilio i'r rheswm am y diffyg cydymffurfiaeth gyda RhGC y Cyngor er mwyn penderfynu a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol o ran gofynion pwrcasu'r UCA sy'n golygu bod y RhGC neu'r RhGC cyfredol yn amhriodol neu'n anymarferol o safbwynt darparu dulliau pwrcasu sy'n rhoi gwerth am arian.

Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiad ar Drefniadau Pwrcasu Corfforaethol sy'n egluro'n rhannol nifer o'r gwendidau a ganfuwyd yn nhrefniadau UCA sydd, yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn ddibynnol ar drefniadau corfforaethol. O'r herwydd, dylid darllen yr adroddiad ar y Trefniadau Pwrcasu Corfforaethol ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

SYLWER – Nid oedd yr adolygiad hwn yn cynnwys prawf ynghylch a oedd trefniadau pwrcasu'r UDA yn sicrhau gwerth am arian, dim ond a oeddynt yn cydymffurfio gyda chyfarwyddiadau pwrcasu Rhyngwladol a Chenedlaethol a chyfarwyddiadau'r Cyngor.

Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac nid yw barn archwilio ffurfiol yn berthnasol iddo.

2.2.5 **Targedau Carbon ac Effeithlonrwydd Ynni – (Risg Gorfforaethol Cyf YM6**) – Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau mewn perthynas â Thargedau Carbon ac Effeithlonrwydd Ynni fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Mae'r Ymrwymiad i Leihau Carbon yn gynllun gorfodol a ddyluniwyd i leihau gollyngiadau $CO_2$ yn y DU a hyrwyddo gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni.

Lansiwyd y cynllun yn Ebrill 2010. Mae sefydliadau'n cymhwyso i fod yn rhan o'r cynllun yn seiliedig ar eu defnydd o drydan. Mae sefydliad yn gymwys i gymryd rhan yn llawn os oes ganddo o leiaf un mesurydd trydan hanner awr (HHM) ac wedi defnyddio dros 6k o roiau megawat (MWh) yn ystod 2008. Gofynnir i'r sawl sy'n aelodau llawn o'r cynllun fonitro eu gollyngiadau CO2 ac i brynu lwfansau a'r dyfynbris cychwynnol oedd £12 fesul tunnell o CO2. O Ebrill 2011, mae sefydliadau sy'n rhan o'r cynllun wedi gorfod prynu lwfansau CO2 yn seiliedig ar ollyniadau'r flwyddyn flaenorol.

Cynhaliwyd yr adolygiad er mwyn canfod pa gamau lliniarol sy'n eu lle i leihau'r risg o beidio cwrdd â'r Targedau Lleihau Carbon ac er mwyn sicrhau bod y camau lliniarol yn eu lle, yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn effeithiol o ran lliniaru'r risg a nodwyd.

Canfu'r adolygiad nad yw'r Cyngor mewn gwirionedd yn gymwys i gymryd rhan lawn yn y Cynllun Ymrwymiad i Leihau Carbon ac o'r herwydd, ellir tynnu'r risg oddi ar y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol.

Prif gasgliadau adolygiad oedd:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Canfu'r adolygiad bod y mesurau rheoli yn y maes hwn wedi eu dylunio'n addas i ganiatáu ar gyfer cofnodi a monitro gollyngiadau CO2 yn y Cyngor ac i benderfynu ar sefyllfa'r Cyngor o ran ymuno gyda'r Cynllun Ymrwymiad Carbon.

**Defnyddio'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Canfuwyd mân broblemau yn unig o ran y broses barhaus o fwydo biliau papur i mewn i'r system DYNAMAT er mwyn cael y fantais fwyaf o'r system ac er mwyn cynhyrchu adroddiadau.

Arweiniodd yr adolygiad at un argymhelliad categori isel a barn archwilio gyffredinol GWYRDD.

**Archwiliadau Ysgolion** – Nod yr adolygiadau o ysgolion yw rhoi sicrwydd ar weithrediad, effeithlonrwydd a digonolrwydd y rheoliadau mewnol allweddol mewn perthynas â systemau incwm a gwariant, rheolaeth ariannol a chyllidebol a threfniadau llywodraethu o fewn yr ysgol. Cwblhawyd yr adolygiadau ysgolion isod i lefel adroddiadau terfynol yn ystod y cyfnod y sonnir amdano yn yr adroddiad hwn.

2.2.6 **Argymhellion Dilyn-i-fyny mewn perthynas ag Ysgolion** – Fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13, rydym wedi cynnal adolygiad i ymchwilio i'r cynnydd a wnaed gan ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu'r argymhellion archwilio mewnol a wnaed eisoes. Roedd yr argymhellion a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiadau dilyn-i-fyny yn codi o adroddiadau a oedd yn ymwneud â'r ysgolion isod:

- Ysgol Moelfre
- Ysgol Rhosneigr
- Ysgol Goronwy Owen
- Ysgol Bryngwran

- Ysgol Biwmares
- Ysgol Llanfairpwll; ac
- Ysgol Uwchradd Bodedern.

O'r 37 argymhelliad a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn, roedd 8 yn y categori 'Canolig' a 29 yn rhai categori 'Isel. Nid oedd unrhyw argymhellion 'Uchel' yn yr adolygiad hwn.

Ymwelodd yr Archwiliwr â'r ysgolion i gyd a chyfweld y Prifathrawon a oedd yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion er mwyn sefydlu statws y camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Lle yr oedd hynny'n briodol, cwblhawyd y profion archwilio er mwyn asesu i ba lefel yr oeddid yn cydymffurfio gyda'r statws hwn a'r rheoliadau a oedd yn eu lle.

Adroddiad ymgynghorol yw hwn i'r rheolwyr Addysg ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgolion o ran gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol. Anfonwyd cynlluniau gweithredu i'r ysgolion unigol yn amlinellu'r argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw a gofynnwyd iddynt ddarparu diweddariadau i'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer eu diweddar ar 4Action.

Casgliadau o'r adolygiad - Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd yn yr adroddiad, 'ychydig o gynnydd' a wnaed yn ein barn ni gan reolwyr i weithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio mewnol.

Rydym ar ddeall fod gan y Gwasanaeth Addysg drefniadau yn eu lle i ddilyn i fyny argymhellion Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad mai cynnydd anfoddhaol a wnaed gan yr ysgolion a oedd yn rhan o'r adolygiad mewn perthynas â gweithredu argymhellion.

Dylid atgoffa Prifathrawon o'r angen i ymateb yn brydlon i adroddiadau rheoleiddiol gan gynnwys adroddiadau gan Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau fod y gwendidau mewn rheoliadau mewnol yn cael sylw a bod risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru'n briodol.

Rydym wedi dwyn sylw eto at yr argymhellion hynny sydd heb eu gweithredu hyd yma. Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi gwneud argymhellion newydd lle mae hynny'n briodol, manylir ar y rhain yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â'r canfyddiadau.

Adolygiad Dilyn-i-fyny oedd hwn a arweiniodd at y farn gyffredinol mai 'ychydig o gynnydd' a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion hyn sy'n ymwneud ag ysgolion.

2.2.7 **Ysgol Rhosybol** – Ysgol gynradd wledig yw Ysgol Rhosybol gydag oddeutu 55 o ddisgyblion. Penodwyd Pennaeth newydd i'r ysgol ym mis Ionawr 2011. Roedd prif ganfyddiadau'r adolygiad yn ymwneud â'r gwendidau isod a nodwyd o ran rheolaeth fewnol:

- Roedd polisïau yn eu lle i gefnogi'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Canfuwyd fodd bynnag nad oedd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr yn ddigon cyflawn a manwl i sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.
- Yn ystod y profion a gynhaliwyd yn yr ysgol, canfuwyd rhai gwendidau o ran y gweithdrefnau mewn perthynas ag archebu nwyddau, gwaith a gwasanaethau; nid oedd yr archebion yn cael eu cwblhau cyn prynu fel mater o drefn.

- Ymddangosai fod cofnodiadau cyflawn a chywir yn cael eu cadw o ran gosod eiddo'r ysgol a bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn wrth osod yr eiddo; nodwyd rhai achlysuron fodd bynnag lle nad oedd y ffurflen cytundeb gosod wedi cael ei llenwi ar gyfer yr achlysur ac achosion eraill lle nad oedd y sawl a oedd yn llogi'r eiddo wedi llofnodi'r ffurflen.

  Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio gyffredinol GWYRDD/AMBR.

2.3 **Crynodeb o Ganlyniadau'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma** – Ers 1 Ebrill 2012, rydym wedi cyhoeddi 2 o adroddiadau terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio mewnol 2011-12; 17 o gynllun 2012-13 ac 11 o adroddiadau cyfeirio. Hyd yma, mae cyfanswm o 30 o adroddiadau Terfynol wedi cael eu cyhoeddi yn 2012/13.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAG | Beth yw ystyr y raddfa newydd | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf | Ebrill 2010 hyd at Ebrill 2011 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 1 | 3 |
| Gwyrdd Ambr (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 2 | 5 |
| Coch Ambr (Graddfa D) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 1 (bron dim cynnydd) | 2 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 2 | 3 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 4 | 17 |
| | Cyfanswm | **10** | **30** |

## 3. PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU AM Y CYFNOD 01/04/12 – 16/11/12

**3.1** Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2012/13. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed | Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|
| % o'r cynllun archwilio 2011/12 a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (63 o adolygiadau yn y cynllun – 1 adroddiad drafft yn y cyfnod a 17 adroddiad terfynol – ac eithrio ymchwiliadau). | 90% | 46% | ☹ | ⬅➡ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ | ⬅➡ |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd o 01/04/10 | 80% | 67% | ☹ | ⬅➡ |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 8 | 3 | 😐 | ⬅➡ |
| Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 2 | 😐 | ⬅➡ |

**3.2** Mae canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd, sef 46% yn is na'r targed o 90%. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r 11 cyfeiriad sydd wedi cael eu cwblhau a'u hadrodd arnynt yn ystod y cyfnod – mae hyn wedi tynnu adnoddau o'r gwaith Archwilio Mewnol rhaglenedig. Mae ymchwiliad sy'n mynd rhagddo wedi cymryd llawer o amser yr Archwiliwr Amser Llawn Cyfatebol yn ystod saith mis cyntaf y flwyddyn hon. Mae'r ymchwiliad bellach wedi cael ei gyfeirio at yr Heddlu.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cymerwyd gwyliau blynyddol ar lefel anghymesur yn ystod misoedd yr haf.

**3.3** Mae'r ganran o argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig a weithredwyd, sef 67%, yn is na'r targed. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i anfon nodiadau atgoffa i ddiweddaru er mwyn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu ar argymhellion yn cael eu cofnodi ar y system.

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae 11 o adroddiadau mewn perthynas â chyfeiriadau wedi cael eu cyhoeddi hyd yma yn 2012/13. Adroddwyd ar dri o'r rhain yn y cyfnod y sonnir amdano yn yr adroddiad hwn (Adroddiadau Cyfeirio 9, 10 ac 11).

**4.3** Roedd Adroddiad 09 yn ymwneud ag achos o fancio incwm yn hwyr gan arwain at ymddiswyddiad yr aelod o staff dan sylw. Cyflwynwyd adroddiad terfynol ar gyfer penderfyniad ynghylch camau pellach ei gyflwyno i'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ac i'r Swyddog Monitro.

4.4 Roedd Adroddiad 10 yn ymwneud â chyfeiriad ynghylch tendro am wasanaeth Tacsi a rhyddhawyd adroddiad yn dweud y daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o afreoleidd-dra ar y llwybrau yr oedd wnelo'r cyfeiriad â hwy.

4.5 Roedd Adroddiad 11 yn ymwneud â chasglu dyledion mewn perthynas â llogi cyfleusterau yn un o Ganolfannau Hamdden y Cyngor.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION


**5.1** Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion wnaed ers 01-04-10 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.

**5.2** Mae perfformiad gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 67% o argymhellion Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt. Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

**RHEOLWR ARCHWILIO**
**12 Rhagfyr 2012**

## Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2010 **ATODIAD A**

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion.




Yn ein barn ni felly, yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tablau Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd rhesymol'** yn ystod y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categorïau Uchel a Chanolig. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio'r rheiny sydd heb gyrraedd eto'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) y mae eu statws hunanasesu yn 'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef **67%** o'r holl argymhellion o'r fath ar ddiwedd y cyfnod.

**Adroddiadau Sicrwydd Coch**

## Diogelwch Data – Adroddiad Cyf: 1787.12/13

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

### 1.1 CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd archwiliad o Ddiogelwch Data fel rhan o'r cynllun cyfnodol archwilio mewnol cymeradwy ar gyfer 2012/13. Diogelwch data yw'r arfer o gadw data'n ddiogel rhag llygredd a mynediad heb awdurdod. Y ffocws tu ôl i ddiogelwch data yw sicrhau preifatrwydd tra'r un pryd yn diogelu data personol neu gorfforaethol.

Un o nodau allweddol llywodraethu electronig yw cael cwsmeriaid i ddarparu manylion personol, o bosibl trwy gyfrwng y we, er mwyn datgloi set o wasanaethau sydd ar gael gan gyfres o ddarparwyr gwahanol. Dyma'r hyn y mae cynghorau ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn ymdrechu i'w gyflawni. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd mae angen i gwsmeriaid fod â hyder bod eu data yn cael ei gasglu, ei storio, ei gyrchu, ei ddefnyddio a'i waredu'n ddiogel. Mae hyn angen defnydd a chyfnewid gwybodaeth effeithiol o fewn cynghorau a rhwng cynghorau a gwasanaethau eraill fel Iechyd ac Addysg. Felly, mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn hyderus bod unrhyw ddata a ddarperir yn cael ei drin gyda chyfrinachedd priodol a'i ddiogelu rhag unrhyw risg o gamddefnydd.

Mae colled o ddata personol yr adroddwyd arnynt yn ddiweddar, fel hwnnw gan Gyllid a Thollau EM, yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus weithredu er mwyn hybu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin a'i chadw'n ddiogel.

Mae Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol, SOCitm a SOLACE wedi eu cynllunio fel ymateb i'r angen i sicrhau hyder cwsmeriaid. Mae'r Canllawiau yn nodi'r camau sylfaenol y dylai pob cyngor eu cymryd i liniaru'r risg hollbresennol bod gwybodaeth bersonol yn cael ei cholli neu fod systemau diogelu data yn methu. Maent felly yn darparu cymorth hanfodol i brif weithredwyr, uwch reolwyr ac aelodau etholedig wrth gyflawni eu cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer ymdrin yn ddiogel ac yn effeithiol â gwybodaeth bersonol.

Yn ei gyflwyniad i'r Canllawiau ym mis Tachwedd 2008, dywedodd y Comisiynydd Gwybodaeth, Richard Thomas:

'Rwy'n credu os yw cynghorau'n gweithredu'r camau a nodir yn y canllawiau yn effeithiol, byddant yn lleihau'n sylweddol y risg o ddigwyddiadau a phroblemau, ac wrth wneud hynny, yn helpu adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, sy'n angenrheidiol wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol, y mae digwyddiadau diweddar a dderbyniodd lawer o gyhoeddusrwydd yn sicr o fod wedi ei herydu.'

Mae'r archwiliad hwn wedi adolygu cydymffurfiad Cyngor Sir Ynys Môn gydag elfennau allweddol dethol o'r Canllawiau ac wedi canfod diffyg cydymffurfiad mewn nifer o'r meysydd allweddol hyn. Mae rhai o'r gwendidau hyn eisoes wedi cael eu hadrodd ymlaen gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei 'Adroddiad Adborth o Adolygiad Rheoli Gwybodaeth' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012 ac adroddiad "A oes gan y Cyngor drefniadau addas ar gyfer llywodraethu ei wybodaeth yn effeithiol? ' Archwilwyr Allanol y Cyngor a gyhoeddwyd ym Mai 2011.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau Archwilio Mewnol ar Ddiogelwch Data, Rheoli Cofnodion a Pharhad Busnes, bwriedir cynhyrchu cynllun gweithredu cyfunol sy'n cynnwys yr holl argymhellion cysylltiedig, gan gynnwys rhai Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Allanol.


Mae'r diffyg cydymffurfiad ag arferion Diogelwch Data allweddol ymysg staff ac aelodau yn cael ei ystyried yn risg sylweddol i enw da'r Cyngor a gallai arwain at ddirwyon mawr drwy ddatgeliadau o ddata heb awdurdod.

Roedd yr amcanion a'r prif risgiau a ystyriwyd fel rhan o'r archwiliad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Amcan: | Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau cywirdeb a diogelwch y data electronig a ffisegol sy'n cael ei ddal. |
| Risg: | Mae'r Cyngor yn methu â chynnal diogelwch a/neu gywirdeb yn ei ddata electronig a ffisegol sy'n arwain at fynediad heb awdurdod / colli data a/neu ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data |

| | |
|---|---|
| Amcan: | Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol. |
| Risg: | Mae'r Cyngor yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth drwy fethiant i ddarparu digon o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer trin gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn effeithiol. |

## 1.2 CASGLIAD




**Gan ystyried y materion a nodwyd, ni all y Cyngor fod yn sicr fod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol.**

**Mae angen gweithredu i sicrhau fod y risg hon yn cael ei rheoli.**

Mae'r casgliadau uchod sy'n bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Nid yw'r Cyngor wedi enwebu Uwch Swyddog Perchennog Risg Gwybodaeth a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol. Felly nid yw atebolrwydd cyffredinol am reoli a diogelwch gwybodaeth y Cyngor wedi ei ddyrannu. Mae'r Canllawiau yn nodi: *'y dylai fod llinellau clir o atebolrwydd ar draws y sefydliad ynghyd â rhaglen codi ymwybyddiaeth staff, gan ddechrau yn y cyfnod sefydlu, ond yn cael ei diweddaru'n barhaus, sy'n nodi'n glir y disgwyliadau o staff.'*
- Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Polisi Rheoli Gwybodaeth sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i reoli gwybodaeth mewn modd proffesiynol, er mwyn sicrhau bod sylfaen gwybodaeth y Cyngor yn cael ei defnyddio yn llawn ac yn effeithlon, tra'i bod ar yr un pryd gyda'r atebolrwydd a'r sicrwydd angenrheidiol. Felly nid yw staff, Aelodau, na'r cyhoedd yn gwybod sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei wybodaeth.
- Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Siarter Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol yn nodi sut mae'r Cyngor yn trin gwybodaeth a sut y gall aelodau o'r cyhoedd ymdrin ag unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- Canfuwyd fod y rheolaethau dros ganiatáu a dileu mynediad rhesymegol i rwydwaith y Cyngor i ddechreuwyr ac ymadawyr yn wan mewn perthynas â chyfathrebu gwybodaeth gweithiwr newydd ac ymadawyr rhwng y Gwasanaethau a TGCh. Canfu profion fod rhai ymadawyr yn parhau i fod â mynediad gweithredol i'r rhwydwaith ar ôl y dyddiad yr oedd y gweithwyr wedi gadael cyflogaeth yr awdurdod.

- Nid oes gweithdrefn yn ei lle ar gyfer adolygu rhaglenni'r Cyngor sy'n casglu a storio gwybodaeth bersonol, sensitif a chyfrinachol er mwyn sicrhau bod diogelwch dros y systemau hynny yn cwrdd â gofynion Polisi Diogelwch TGCh y Cyngor a Safonau Diogelwch Gwybodaeth (BS ISO/IEC 27002:2005).
- Nid oes unrhyw weithdrefnau yn eu lle i nodi pa ddata sy'n cael ei brosesu a'i gadw gan y Cyngor. Nid yw safonau dosbarthiad data wedi'u diffinio i nodi sut y dylai data cyfrinachol sensitif, personol a busnes gael ei drin a'i drosglwyddo.
- Nid yw'r Cyngor wedi ymgymryd ag ymarfer mapio data i nodi a rheoli'r meysydd risg allweddol pan fo gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng y Cyngor ei hun a sefydliadau eraill.
- Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu polisi desg glir i sicrhau nad yw staff yn gadael dogfennau a/neu ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol ar eu desgiau heb oruchwyliaeth. Mae risg cynyddol o fynediad heb awdurdod i ddata lle mae staff glanhau yn cael mynediad i swyddfeydd ar ôl oriau gwaith arferol staff.
- Nid yw'r Cyngor wedi darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch data neu sesiynau hyfforddi i staff. Mae Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol (CTDLlL) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau: *'yn sicrhau bod codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn cael eu cynnal ar y lefel briodol ac yn monitro dealltwriaeth a gallu o bryd i'w gilydd; dylai diweddariadau rheolaidd gael eu trefnu ar gyfer yr holl weithwyr.'*
- Nid oes gan y Cyngor weithdrefnau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau data a materion eraill sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth neu ddata. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod digwyddiadau yn mynd heb eu hadrodd i'r staff perthnasol ac felly nad oes camau'n cael eu cymryd i sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd eto.
- Nid oes gan y Cyngor weithdrefnau ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer adfer digwyddiadau risg gwybodaeth, gan gynnwys cyfryngau'r Cyngor, ac ymateb cyfreithiol a chyfrifoldebau staff sy'n delio â digwyddiadau o'r fath, gan gynnwys y cyfrifoldeb ynghylch adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y bo'n briodol.
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer casglu a chael gwared â gwastraff cyfrinachol wedi eu ffurfioli. Nid oes cytundeb ffurfiol gyda'r contractwr presennol i gasglu a chael gwared â gwastraff cyfrinachol neu unrhyw ofynion ynghylch prawf fod gwastraff o'r fath wedi ei waredu. Canlyniad y gweithdrefnau cyfredol anffurfiol hyn yw bod sachau gwastraff cyfrinachol yn cael eu storio'n anniogel mewn swyddfeydd a choridorau cyn eu casglu.
- Nid oes unrhyw bolisïau yn eu lle ar gyfer adolygu'r gweithdrefnau diogelwch data.
- Nid oes rhestr ganolog/ cofrestr asedau o offer TGCh, ac felly nid oes gwiriad rheolaidd y gellir rhoi cyfrif am offer TGCh sy'n cynnwys data personol, sensitif neu gyfrinachol.

**Y defnydd a chydymffurfiaeth â'r fframwaith rheoli**

- Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer storio cofnodion modern y Cyngor yn ddigon diogel, ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer adfer ffeiliau a/neu ddogfennau'n gyfleus pan fo angen. Mae Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad ac adroddiad ar wahân ynglŷn â rheoli Cofnodion Modern y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi dau bolisi cadw dogfennau ar wahân ar ei fewnrwyd, un gan Zurich ac un gan Gymdeithas Rheoli Cofnodion Prydain. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu p'un y dylid ei fabwysiadu gan staff y Cyngor. Mae angen dull corfforaethol o ymdrin â chadw dogfennau os yw'r cyfleuster newydd i storio Cofnodion Modern i gael ei ddefnyddio'n effeithiol.
- Yn ymarferol, gwelwyd bod dogfennau a ffeiliau yn cael eu storio y tu hwnt i'w cyfnodau cadw gofynnol. Mae diffyg gweithdrefnau o fewn rhai gwasanaethau i nodi dogfennau nad ydynt bellach angen eu storio ac i drefnu eu bod yn cael eu gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol diangen ar gyfleusterau storio sydd eisoes yn gyfyngedig.
- Pan fo'r wybodaeth berthnasol o natur bersonol neu sensitif ac nad oes ei hangen mwyach at y diben y cafodd ei chasglu, mae parhau i'w storio yn torri'r Ddeddf Diogelu Data (Egwyddor 5), sy'n datgan 'Ni chaiff data personol a broseswyd i unrhyw ddiben neu

ddibenion ei gadw am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.'

- Canfuwyd nad oedd paramedrau diogelwch wedi eu defnyddio i'r Safonau Diogelwch Gwybodaeth priodol (BS ISO / IEC 27002:2005) neu Bolisi Diogelwch TGCh y Cyngor mewn perthynas â dwy system yn y Cyngor yn ystod yr adolygiad. Y systemau hyn oedd y system Torex ar gyfer Canolfannau Hamdden a'r system CALM i'w defnyddio ar gyfer cofnodi storio Cofnodion Modern.
- Mae adeilad Prif Swyddfa'r Cyngor ar agor am 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos ar gyfer staff gyda chardiau allwedd mynediad. Pan brofwyd staff a oedd wedi gadael yn erbyn eu statws cerdyn allwedd ar y system HFX / Win Time gwelwyd nad oedd rhai cardiau wedi eu dileu, felly, gallai rhai staff ddal i gael mynediad i Brif Swyddfa'r Cyngor. Mae'r fath wendidau mewn rheolaethau yn cynyddu'r risg o fynediad heb awdurdod i wybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol. Mae'r CTDLIL yn ei gwneud yn ofynnol: *'y dylai pob cyngor sicrhau diogelwch ei wybodaeth drwy ddiogelwch ffisegol ei adeiladau, eiddo a systemau.'*
- Dangosodd prawf ar sampl o staff a oedd wedi gadael yn erbyn eu statws mynediad i'r rhwydwaith fod eu statws mynediad yn dal i fod yn weithredol mewn pump o bob chwe ymadawr a brofwyd. Mae hyn yn cynyddu'r risg o fynediad heb awdurdod i wybodaeth a data a gedwir.

## 1.3 CWMPAS YR ADOLYGIAD

I werthuso pa mor ddigonol yw'r rheolaeth o risg o fewn y system ac i ba raddau y mae rheolaethau wedi'u defnyddio, gyda'r bwriad o roi barn. Mae gweithgareddau rheoli yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y risgiau i gyflawni amcanion y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth gynllunio'r archwiliad, dyma'r cyfyngiadau y cytunwyd arnynt:

### Cyfyngiadau i gwmpas yr archwiliad:

- Bydd yr adolygiad ar ffurf adolygiad pen desg lefel uchel o drefniadau Diogelwch Data'r Cyngor ar gyfer data electronig a ffisegol.
- Bydd yr adolygiad yn cynnwys asesiad o gydymffurfiad y Cyngor gyda detholiad o ofynion allweddol Canllawiau Trin Data Llywodraeth Leol SOCITM.
- Nid yw'r gwaith yn rhoi unrhyw warant yn erbyn gwallau perthnasol, colled neu dwyll nac yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwall perthnasol, colled neu dwyll yn bodoli.

Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr archwiliad hwn oedd Archwilio Seiliedig ar Risg.

**Adroddiadau Sicrwydd Coch**

## Rheoli Cofnodion Modern – Adroddiad Cyf: 1808.12/13

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

### 1.1 CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd archwiliad o Reoli Cofnodion Modern fel rhan o'r cynllun cyfnodol archwilio mewnol cymeradwy ar gyfer 2012/13. Roedd yr adolygiad yn seiliedig yn rhannol ar gydymffurfiad Cyngor Sir Ynys Môn â'r arferion rheoli cofnodion a argymhellir, a safonau’r Sefydliad Rhyngwladol Safoni (ISO 15489-1:2001). Dylid pwysleisio bod yr adolygiad yn ymwneud â dull ac arferion y Cyngor mewn perthynas â Rheoli Cofnodion Modern ac nid yw’n adolygiad o gyfleuster newydd Archifau Ynys Môn fel y cyfryw; er bod yr adolygiad yn cynnwys y trefniadau hyn er mwyn cyflawnder.

Rheoli Cofnodion yw'r arfer o ddefnyddio mesurau rheoli systematig gyda’r wybodaeth gofnodedig sydd ei hangen i weithredu busnes yn ystod camau amrywiol o'i gylch bywyd: o amser ei chreu neu ei derbyn, trwy ei phrosesu dosbarthu, cynnal a chadw a defnyddio, i gael gwared â hi yn y pen draw. Pwrpas rheoli cofnodion yw hyrwyddo effeithlonrwydd o ran cadw cofnodion, er mwyn sicrhau bod cofnodion diwerth yn cael eu dinistrio’n briodol a systematig tra bo gwybodaeth werthfawr/ ddefnyddiol yn cael ei diogelu a'i chynnal mewn modd sy'n hwyluso mynediad iddi a defnydd ohoni.

Yn aml gwelir Rheoli Cofnodion fel tasg weinyddol ddiangen neu un sydd â blaenoriaeth isel iddi, y gellir ei pherfformio ar y lefelau isaf; fodd bynnag, gyda’r rheoliadau cydymffurfio newydd, a’r pwyslais ar breifatrwydd a diogelu data, mae rheoli cofnodion wedi dod yn gonsyrn pwysig mewn sefydliadau, gyda mwy o ffocws ar weithredu atodlenni cadw cofnodion a dinistrio priodol.

Dim ond ar reoli cofnodion papur mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio, ac nid yw’n cynnwys adolygiad o’r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli cofnodion electronig.

Canfu'r archwiliad fod y Cyngor wedi gwneud cryn dipyn o fuddsoddiad yn y cyfleuster Archifau Ynys Môn sy'n addas at ddiben storio cofnodion; mae’r cyfleuster hefyd wedi cael ei werthuso fel yr ateb i ddarparu gwasanaeth storfa ar gyfer holl gofnodion modern lled-gyfredol y Cyngor. Mae'r cyfleuster eisoes wedi dechrau derbyn cofnodion gan y Gwasanaethau ac mae'n canolbwyntio ei ymdrechion ar drosglwyddo'r cofnodion hynny sydd ar hyn o bryd â’r risg uchaf oherwydd eu trefniadau storio presennol. O fis Medi 2011 hyd at adeg yr adolygiad (Medi 2012) mae’r gwaith rhwng y Gwasanaethau ac Archifau Ynys Môn wedi arwain at drosglwyddo 500 o flychau o gofnodion modern i'r cyfleuster o'r gwasanaethau canlynol: Gwasanaethau Oedolion; Adnoddau Dynol, Addysg a’r Uned Datblygu Economaidd. Mae'r broses hon wedi dangos bod y trefniadau i ddarparu safle ar gyfer adneuo cofnodion diogel yn effeithiol ac yn briodol. Y bwriad nawr yw ehangu'r gwasanaeth i holl gofnodion modern lled-gyfredol y Cyngor, ac ystyrir bod hyn yn gynnydd sylweddol o ble roedd y Cyngor dim ond dwy flynedd yn ôl.

Ar hyn o bryd prif wasanaeth y cyfleuster yw darparu lle ar gyfer cofnodion archif. Mae cymeradwyaeth yr Archif Genedlaethol a ddyfarnwyd i Archifau Ynys Môn eleni yn cadarnhau bod yr adeilad a gweithrediadau archif yn bodloni gofynion y Safon mewn perthynas â llifogydd ac atal lleithder, diogelu rhag tân, trefniadau storio, diogelwch ayb. Os yw Archifau Ynys Môn i barhau i ehangu gwasanaethau tu draw i storio archifau tuag at storio holl gofnodion lled-gyfredol y Cyngor, bydd angen defnyddio adnoddau a safonau priodol pellach; er enghraifft lefelau staffio digonol a chynhyrchu polisïau ynglŷn â’r math o gofnodion y gellir/ na ellir eu derbyn yn y cyfleuster (h.y. rhaid i bob cofnod gael ei gadw’n ddiogel rhag pla a lleithder).

Fodd bynnag, i ffwrdd oddi wrth Archifau Ynys Môn, canfu'r archwiliad ddiffyg cydymffurfiad mewn nifer o brif feysydd trefniadau Rheoli Cofnodion Modern y Cyngor. Eisoes adroddwyd ar

rai o'r rhain gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei 'Adroddiad Adborth o Adolygiad Rheoli Gwybodaeth' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012 ac adroddiad 'A oes gan y Cyngor drefniadau addas ar gyfer llywodraethu ei wybodaeth yn effeithiol?' a gyhoeddwyd ym Mai 2011.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau Archwilio Mewnol ar Ddiogelwch Data, Rheoli Cofnodion a Pharhad Busnes, bwriedir cynhyrchu cynllun gweithredu cyfunol sy'n cynnwys yr holl argymhellion cysylltiedig, gan gynnwys rhai Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Allanol

Mae'r diffyg cydymffurfiad ag arferion Rheoli Cofnodion Modern a sawl digwyddiad o dorri'r Ddeddf Diogelu Data ymysg staff ac aelodau yn cael ei ystyried yn risg sylweddol i enw da'r Cyngor a gallai arwain at ddirwyon mawr.

Y ddirwy diweddaraf gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a osodwyd ar awdurdod lleol oedd £250,000 ar ôl i gofnodion cyflogeion gael eu canfod mewn bin ailgylchu mewn maes parcio archfarchnad. Roedd y Cyngor wedi cyflogi cwmni allanol i ddigideiddio'r cofnodion, ond wedi methu â gofyn am sicrwydd priodol ynglŷn â sut y byddai'r data personol yn cael ei gadw'n ddiogel.

Roedd yr amcanion a'r prif risgiau a ystyriwyd fel rhan o'r archwiliad hwn fel a ganlyn:


| | |
|---|---|
| Amcan | Sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli cofnodion modern corfforaethol. |
| Risgiau | Trefniadau rheoli cofnodion modern yn annigonol i sicrhau hygyrchedd, diogelwch a chywirdeb cofnodion corfforaethol.<br>Nid yw'r system rheoli cofnodion/ cronfa ddata yn cael ei chefnogi yn briodol er mwyn sicrhau y gall y system gael ei hadfer yn brydlon yn dilyn senario trychineb. |

| | |
|---|---|
| Amcan | Sicrhau bod data yn cael ei storio yn ddiogel ac na ellir cael mynediad na datgeliad amhriodol mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data |
| Risgiau | Cael mynediad amhriodol a/neu ddatgelu data yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data.<br>Mynediad heb awdurdod i'r gronfa ddata rheoli cofnodion modern drwy reolaethau mynediad rhesymegol aneffeithiol. |

| | |
|---|---|
| Amcan | Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer cael gwared yn ddiogel â chofnodion corfforaethol modern sydd wedi'u storio pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu cyfnod cadw gofynnol. |
| Risgiau | Data yn cael ei storio'n ddiangen, gan fynd i gostau storio tu draw i'r hyn sydd ei angen a chreu problemau gofod yn y cyfleuster archif.<br>Data personol a sensitif yn cael ei storio y tu hwnt i'r cyfnod y cafodd ei gasglu, yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data. |

| | |
|---|---|
| Amcan | Adrannau gyda gweithdrefnau ac adnoddau digonol yn eu lle ar gyfer prosesu cofnodion modern i'w trosglwyddo i Archifau Ynys Môn. |
| Risgiau | Nid yw Adrannau yn trosglwyddo cofnodion modern i'r cyfleuster Archifau Ynys Môn oherwydd diffyg proses ac adnoddau;<br>Y trefniadau storio cofnodion modern annigonol presennol yn parhau. |

## 1.2 CASGLIAD




**Gan ystyried y materion a nodwyd, ni all y Cyngor fod yn sicr fod y rheolaethau y mae’r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli’r risg hon wedi’u dylunio’n addas, eu defnyddio’n gyson nac yn effeithiol.**

**Mae angen gweithredu i sicrhau fod y risg hon yn cael ei rheoli.**

Mae'r casgliadau uchod sy’n bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn fel a ganlyn:

### Dyluniad y fframwaith rheoli

- Nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Polisi Rheoli Cofnodion yn nodi ymrwymiad y Cyngor i reoli cofnodion mewn ffordd systematig ac i sicrhau atebolrwydd ac arfer effeithiol ar draws y Cyngor. Dylai'r polisi amlinellu rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau Archifau Ynys Môn ac ar lefel gorfforaethol.
- Nid yw'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau na chyllideb ar gyfer arferion rheoli cofnodion megis trosglwyddo a chael gwared â chofnodion. Fodd bynnag, nodwyd drwy'r costau yr adroddwyd arnynt mewn cyswllt â throsglwyddo a phrosesu’r cofnodion i hen Ysgol y Graig ac Archifau Ynys Môn ers mis Medi 2011 bod y Cyngor yn gwario miloedd o bunnau bob blwyddyn ar drosglwyddo cofnodion i’w storio a chael gwared â gwastraff cyfrinachol.
- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi dwy atodlen yn ymwneud â chadw ar fewnrwyd y Cyngor sydd yn groes i'w gilydd. Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y naill bolisi cadw na’r llall.
- Mae gan y Cyngor gapasiti cyfyngedig i symud a throsglwyddo cofnodion sydd yn cael eu storio ar hyn o bryd yn hen Ysgol y Graig i Archifau Ynys Môn.
- Nid yw’r trefniadau ar gyfer casglu a throsglwyddo cofnodion modern i'r cyfleusterau storio wedi eu ffurfioli. Nid oes cytundeb ffurfiol gyda'r contractwr presennol er mwyn darparu trosglwyddo diogel.
- Nid yw’r trefniadau ar gyfer casglu a chael gwared â gwastraff cyfrinachol wedi eu ffurfioli. Nid oes cytundeb ffurfiol gyda'r contractwr presennol ar gyfer casglu a chael gwared â gwastraff cyfrinachol nac unrhyw ofyniad am brawf o waredu gwastraff o'r fath. Canlyniad y gweithdrefnau anffurfiol presennol yw fod sachau o wastraff cyfrinachol yn cael eu storio’n anniogel mewn swyddfeydd a choridorau cyn eu casglu.

### Y defnydd a chydymffurfiaeth â’r fframwaith rheoli

- Nid yw’r trefniadau presennol ar gyfer storio cofnodion modern y Cyngor yn ddigon diogel ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer adfer ffeiliau a/neu ddogfennau yn gyfleus pan fo angen.
- Canfuwyd bod dogfennau a ffeiliau yn cael eu storio y tu hwnt i'w cyfnodau cadw gofynnol. Mae diffyg gweithdrefnau o fewn rhai gwasanaethau i nodi dogfennau nad oes bellach angen eu storio ac i drefnu eu bod yn cael eu gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol diangen ar gyfleusterau storio sydd eisoes yn gyfyngedig.
- Pan fo'r wybodaeth berthnasol o natur bersonol neu sensitif ac nad oes ei hangen mwyach at y diben y cafodd ei chasglu, mae storio parhaus yn torri’r Ddeddf Diogelu Data (Egwyddor 5), sy'n datgan ‘Ni chaiff data personol a broseswyd i unrhyw ddiben neu ddibenion ei gadw am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.'
- Yn dilyn yr adolygiad ar ddau o gyflenwyr a ddefnyddir i drosglwyddo a chael gwared â rheoli cofnodion, gwelwyd bod y Cyngor wedi caffael y gwaith ar sail ad hoc ac nad oedd wedi dilyn Rheolau Gweithdrefnau’r Cyngor mewn perthynas â'r cyfanswm gwariant corfforaethol. Trwy beidio â chronni gwariant, efallai fod y Cyngor hefyd yn gwario dros y trothwy lle mae rheoliadau caffael yr UE yn berthnasol.

## 1.3 CWMPAS YR ADOLYGIAD

I werthuso pa mor ddigonol yw’r rheolaeth o risg o fewn y system ac i ba raddau y mae rheolaethau wedi'u defnyddio, gyda'r bwriad o roi barn. Mae gweithgareddau rheoli yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y risgiau i gyflawni amcanion y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth gynllunio'r archwiliad, dyma'r cyfyngiadau y cytunwyd arnynt:

**Cyfyngiadau i gwmpas yr archwiliad:**

- Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddulliau ac arferion y Cyngor mewn cyswllt â Rheoli Cofnodion Modern.
- Ni fydd yr adolygiad yn cynnwys prosiect y Cyngor ar gyfer Rheoli Cofnodion Electronig.
- Nid yw'r gwaith yn rhoi unrhyw warant yn erbyn gwallau perthnasol, colled neu dwyll nac yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwall perthnasol, colled neu dwyll yn bodoli.

Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr archwiliad hwn oedd Archwilio Seiliedig ar Risg

*DS - Nid oedd yr Archifau yn cael hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn gan fod adolygiad ar wahân o’r maes hwn wedi ei gynnal gan yr Archifau Cenedlaethol, a arweiniodd at benodi ‘Archifau Ynys Môn yn ffurfiol fel man adneuo ac i ddyfarnu cymeradwyaeth TNA i'r gwasanaeth.' (Arolygiad TNA o Archifau Ynys Môn - Gorffennaf 2012). Roedd y penodiad hwn yn ganlyniad i waith sylweddol gan yr Adran Dysgu Gydol Oes a rhaid i unrhyw drefniadau ar gyfer storio pellach sicrhau eu bod yn bodloni'r un safonau er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyflawniad hwn yn cael ei gynnal.*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **Dyddiad** | **12 Rhagfyr 2012** |
| **Pwnc** | **Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol: Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn 2012/13** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Pennaeth Gwasanaeth(Cyllid)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Einir Wyn Thomas (Ffôn:2605)** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>I'w sgriwtineiddio - yn gyson ag arweiniad proffesiynol. | |

## 1. Cefndir

Un o ofynion Côd Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli'r Trysorlys yw bod y Cyngor llawn yn derbyn adroddiad adolygu canol blwyddyn ar weithgareddau rheoli trysorlys. Bydd yr adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwnnw ac mae'n rhoi sylw i'r isod:

- Diweddariad economaidd am y chwe mis cyntaf ac yn edrych ymlaen i ail hanner 2012/13;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor (dangosyddion pwyllog);
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2012/13;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2012/13;
- Adolygiad o unrhyw weithgareddau adrefnu dyledion yn ystod 2012/13;
- Crynodeb o weithgaredd ers chwarter 2;
- Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf; ac
- Adolygiad o gydymffurfiaeth gyda Therfynau Trysorlys a Phwyllog ar gyfer 2012/13.

Mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu dylai'r Pwyllgor Archwilio gymryd y rôl o sgriwtineiddio'r adroddiadau ar Rheoli Trysorlys.

## 2. Diweddariad Economaidd

Mae Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor wedi paratoi crynodeb yn ddiweddar o'r cefndir economaidd a'r rhagolygon tymor byr (Atodiad 1) ynghyd â'r rhagolygon isod.

| | Rhag 2012 | Maw 2013 | Meh 2013 | Medi 2013 | Rhag 2013 | Maw 2014 | Meh 2014 | Medi 2014 | Rhag 2014 | Maw 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Banc(%)** | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 |
| **Cyfradd 5 mlynedd PWLB(%)** | 1.50 | 1.50 | 1.50 | 1.60 | 1.60 | 1.70 | 1.70 | 1.80 | 2.00 | 2.20 |
| **Cyfradd 10 mlynedd PWLB(%)** | 2.50 | 2.50 | 2.50 | 2.60 | 2.60 | 2.70 | 2.70 | 2.80 | 3.00 | 3.20 |
| **Cyfradd 25 mlynedd PWLB(%)** | 3.70 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.90 | 3.90 | 4.00 | 4.10 | 4.30 |
| **Cyfradd 50 mlynedd PWLB(%)** | 3.90 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 4.10 | 4.10 | 4.20 | 4.30 | 4.50 |

Yn ystod y chwarter lansiodd Trysorlys Ei Mawrhydi gyfradd fenthyca is i ddarparu cyllid PWLB yn rhatach ar gyfer awdurdodau lleol, yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2012. I fod yn gymwys i dderbyn y 'gyfradd sicrwydd' hon, sydd 0.2% yn is na'r gyfradd safonol gyfredol, roedd angen i'r awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth benodol erbyn dyddiad cau, sef canol Medi 2012. Cydymffurfiodd yr Awdurdod hwn gyda'r gofynion hynny ac mae bellach yn gymwys i dderbyn y gyfradd is, sydd ar sail flynyddol dreigl. Mae'r rhagolygon uchod ar gyfer cyfraddau PWLB wedi ymgorffori y disgownt hwn.

## 3. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2012/13 gan y Cyngor hwn ar 6 Mawrth 2012. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r DSRhT; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 4. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Pwyllog)

Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro i ddiweddaru:

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion pwyllog a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfiaeth gyda'r terfynau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gweithgareddau benthyca.

### 4.1 Dangosydd Pwyllog ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf a'r newidiadau ers cytuno ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer y Gyllideb.

| Gwariant Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2012/13 £m | Y sefyllfa ar 30 Medi 2012 £m | Amcangyfrif Cyfredol 2012/13 £m |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 18,000 | 4,483 | 18,000 |
| CRT | 9,800 | 4,664 | 9,800 |
| Cyfanswm | 27,800 | 9,147 | 27,800 |

### 4.2 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf

Nid oes unrhyw newidiadau i gyllido'r rhaglen gyfalaf. Mae'r cyfraniadau refeniw i'r rhaglen yn parhau'n hyblyg ac wedi eu nodi fel ffynhonnell posib o gyllid i'w gyllideb refeniw.

### 4.3 Newidiadau i'r Dangosyddion Pwyllog ar gyfer y Gofynion Cyllido Cyfalaf, Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca i bwrpas cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Yr enw ar hyn yw'r Terfyn Gweithredol.

**Dangosydd Pwyllog – Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

Rydym ar darged i fod o fewn y rhagamcan gwreiddiol ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf.

**Dangosydd Pwyllog – Dyled Allanol / y Terfyn Gweithredol**

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2012/13 £m** | **Y sefyllfa ar 30 Medi 2012 £m** | **Amcangyfrif Cyfredol 2012/13 £m** |
|---|---|---|---|
| ***Dangosydd Pwyllog – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 85,300 | 76,162 | 82,078 |
| GCC – CRT | 28,400 | 21,421 | 26,755 |
| Cyfanswm GCC | 113,700 | 97,584 | 108,833 |
| Symudiad net yn y GCC | 13,034 | (16,116) | 8,167 |
| ***Dangosydd Pwyllog – Dyled Allanol/Terfyn Gweithredol*** | | | |
| Benthyca | 118,000 | 96,100 | 96,096 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | Dim | Dim |
| Cyfanswm Dyled 31 Mawrth | 120,000 | 96,100 | 96,096 |

## 4.4 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthyca

Yr elfen gyntaf allweddol o reolaeth dros y gweithgareddau trysorlys yw dangosydd pwyllog i sicrhau na fydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau), dros y tymor canol, ond yn cael ei wneud i ddiben cyfalaf. Ni ddylai benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r cyfanswm GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amgyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2012/13 a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi o fenthyca cyn i'r angen godi a glynir wrth y polisi hwnnw os gwelir bod hynny'n ddoeth.

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2012/13 £m** | **Y sefyllfa ar 30 Medi 2012 £m** |
|---|---|---|
| Benthyca gros | 113,717 | 96,100 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | Dim | Dim |
| Llai buddsoddiadau | 25,932 | 22,100 |
| Benthyca net | 87,785 | 84,000 |
| GCC | 113,700 | 97,584 |

Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir bydd y GCC yn £109m, ac, o ganlyniad, mae gofyn i fenthyca £13m. Mae'r opsiwn i fewnoli dal ar gael ond mae'n debygol bod benthyca PWLB yn fwy deniadol, o ganlyniad i'r Cyfradd Sicrwydd newydd. Felly, bydd benthyca ar ddiwedd y flwyddyn rhwng £96m i £109m. Fodd bynnag, gwnaed arbedion ar log ar fenthyciadau ac mae'r canlyniad net a ragwelir yn parhau i fod o fewn terfynau'r gyllideb.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn adrodd nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer eleni na blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

Mae dangosydd pwyllog arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthyca. Hwn yw'r terfyn awdurdodedig na chaniateir benthyca y tu draw iddo. Mae angen i Aelodau osod a diwygio'r terfyn hwn. Mae'n adlewyrchu lefel y benthyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw'n ddymunol, ond sydd ddim yn gynaliadwy yn y tymor hir. Hwn yw'r uchafswm benthyca gyda rhywfaint o ddarpariaeth wrth gefn ar gyfer symudiadau annisgwyl. Hwn yw'r terfyn statudol a benderfynir dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

| Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol | Dangosydd Gwreiddiol 2012/13 (£m) | Y sefyllfa ar 30 Medi 2012 (£m) |
|---|---|---|
| Benthyca | 123,000 | 96,100 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | Dim |
| Cyfanswm | 125,000 | 96,100 |

## 5. Portffolio Buddsoddi 2012/13

Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a chael dychweliad priodol, o'i gydbwyso yn erbyn y risg gysylltiedig. Fel sydd wedi ei nodi yn Adran 3, mae'r farchnad fuddsoddi'n anodd iawn o ran denu'r cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau a fu oherwydd bod cyfraddau'n isel iawn ac yn gyson â Chyfradd Banc 0.5%. Mae'r argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro a'i effaith bosib ar fanciau yn annog strategaeth risg isel a thymor byr. O gofio'r hinsawdd yma o osgoi risg, mae dychweliadau ar fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.

Roedd gan y Cyngor £22m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2012 (£16m ar 31 Mawrth 2012) a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn yw 0.96%.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn cadarnhau nad aethpwyd dros ben y terfynau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwe mis cyntaf 2012/13.

Y dychweliad y mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar ei gyfer o fuddsoddiadau ar gyfer 2012/13 yw £0.4m. Fel nodwyd yn y strategaeth, mae rhywfaint o'r benthyca wedi cael ei fewnoli yn ystod y flwyddyn ac felly mae'r dychweliadau o'r buddsoddiadau a ragwelir yn is na'r rheini y cyllidebwyd ar eu cyfer.

### Meini prawf gwrthbartion buddsoddi

Mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi ac a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofynion y swyddogaeth rheoli trysorlys er ei bod yn mynd yn anoddach i fuddsoddi arian gan fod y ansawdd credyd yn parhau i leihau .

Yn ystod y flwyddyn, mae'r rhestr o wrthbartion a chanddynt raddfeydd credyd addas wedi parhau i ostwng yn sylweddol, gyda graddfeydd credyd yn gyffredinol yn parhau i ddirywio a chyfleon i fuddsoddi yn parhau i brinhau.

Rydym yn parhau i roi arian fel adneuon gyda Santander UK plc yn gyson gyda'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor Sir mis Mawrth 2012 a'i gadanhau gan y Pwyllgor Archwilio. Y sefyllfa bresennol yw bod graddfeydd tymor byr gan ddau o'r tri asiantaeth wedi disgyn un hicyn yn is na'r lefel arferol yn y rhestr sydd wedi ei awdurdodi. Mae'r graddfeydd tymor hir yn parhau yn is na lefel y rhestr sydd wedi ei awdurdodi.

## 6. Benthyca

Mae'r cynydd yng ngofyniad cyllido cyfalaf (GCC) y Cyngor ar gyfer 2012/13 yn £8.2m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca i bwrpas cyfalaf. Os yw'r GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthyca gan PWLB neu gan y farchnad (benthyca allanol) neu o'r balansau mewnol am gyfnod dros dro (benthyca mewnol). Mae'r cydbwysedd rhwng benthyca allanol a mewnol fel arfer yn cael ei ddylanwadu gan amgylchiadau'r farchnad. Mae'r tabl ym mharagraff 4.4 yn dangos bod gan y Cyngor fenthyciadau o £96m ac wedi defnyddio £1.5m o gyllid llif arian yn lle benthyca. Mae hyn yn ffordd ddoeth a chost-effeithiol o weithredu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Fel yr amlinellir uchod, y patrwm a welwyd yn gyffredinol yw gostyngiad mewn cyfraddau llog yn ystod y chwe mis, ar draws yr holl fandiau aeddfedrwydd.

Ar hyn o bryd, rydym yn benthyca'n fewnol oherwydd amgylchiadau'r farchnad a chyfraddau llog ac nid ydym yn bwriadu cymryd unrhyw fenthyciadau newydd gan y PWLB yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, gellir addasu'r strategaeth hon yn ôl amgylchiadau'r farchnad sy'n parhau i gael eu monitro ar sail reolaidd.

**7. Ad-drefnu Dyledion**

Ni wnaed unrhyw waith ad-drefnu dyledion yn ystod y chwe mis cyntaf 2012/13.

**8. Gweithgareddau ers Chwarter Dau**

Ers diwedd y chwarter, aeddfedodd buddsoddiad tymor sefydlog 6 mis o £5m gyda Royal Bank of Scotland ac fe gafodd ei ailfuddsoddi gyda'r banc am 364 o ddyddiau ar gyfradd o 1.58%. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau tymor sefydlog eraill ac ni fenthycwyd unrhyw arian newydd ac ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu. Ym mis Hydref cafwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli trysorlys ei wneud er mwyn cefnogi rol craffu aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

**9. Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesa**

Yn ei gyfarfod yn Chwefror, bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y cynlluniau ar gyfer benthyca a buddsoddi ar gyfer y cyfnod i ddod. Yn ôl y strategaeth cyllideb refeniw cyfredol, y cynlluniau cychwynnol yw :-

- I ddefnyddio'r dyraniad benthyca gyda chefnogaeth cyffredinol sydd ar gael o £2.142m (£2.689m yn 2012/13) ynghyd ag unrhyw ddyraniad y flwyddyn gyfredol sydd heb ei ddefnyddio;
- I ddefnyddio'n llawn y benthyca gefnogir gan y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol;ac
- I ystyried cynnig i fenthyca £5m y flwyddyn mewn benthyca di-gefnogaeth i alluogi'r rhaglen rhesymoli asedau, yn cynnwys Ysgolion y 21ain Ganrif.

**10. Argymhellion**

Ystyried cynnwys yr adroddiad ac i drosglwyddo'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor Sir ynghyd ag unrhyw sylwadau.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH(CYLLID)** **5 RHAGFYR 2012**

## Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys – Chwarter 2 2012/13

| Dangosydd Pwyllog/Trysorlys | Dangosydd 2012/13<br>£m | Gwirioneddol Chwarter 1<br>£m |
|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | 113.7 | n/a |
| Benthyca gros | d/b | 96.1 |
| Buddsoddiadau | d/b | 22.1 |
| Benthyca net | d/b | 74.0 |
| Terfyn awdurdodedig am ddyled allanol | 123 | O fewn y terfyn |
| Ffin weithredol am ddyled allanol | 118 | O fewn y terfyn |
| Terfyn graddfeydd llog sefydlog yn seiliedig ar ddyled net | 105 | O fewn y terfyn |
| Terfyn graddfeydd llog amrywiol yn seiliedig ar ddyled net | 20 | Dim |
| Prifsymiau buddsoddwyd > 364 diwrnod | 15 | Dim |
| Strwythur aeddfedu am derfynau benthyca | | |
| O dan 12 mis | 20% | 0% |
| 12 mis i 2 flynedd | 20% | 7% |
| 2 flynedd i 5 mlynedd | 50% | 6% |
| 5 mlynedd i 10 mlynedd | 75% | 15% |
| 10 mlynedd a throsodd | 100% | 72% |